



BRECON BEACONS
NATIONAL PARK

1957-2007

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL BANNAU
BRYCHEINIOG

CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY

MEHEFIN 2007

RHAGAIR

Mae'r ddogfen hon yn ceisio 'cydymffurfio â safonau derbyniol tegwch, tryloywder, atebolrwydd, cydraddoldeb, parch a dwyieithrwydd' (*Dringo'n Uwch, Strategaeth ar gyfer Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol Llywodraeth Cynulliad Cymru 2000, 1.2*). Rydym am iddi fod mor glir a cryno ac ar gael i gymaint o bobl a grwpiau â phosibl.

Ymgynghorwyd yn eang ar y ddogfen hon. Anfonwyd copïau o'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy drafft i bob ymgynghorai statudol ynghyd â llawer o grwpiau defnyddwyr ac unigolion (gweler Atodiad 1). Roedd copi ar gael i'w archwilio ym mhrif swyddfa Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y cyfeiriad isod a hefyd ar wefan Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Derbyniwyd llawer o sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori ar y Cynllun Drafft. Mae mwyafrif y sylwadau hynny wedi'u cynnwys yn y Cynllun terfynol hwn.

Mabwysiadodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog fersiwn llawn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar 26 Mehefin 2007.

Mae copïau o'r Cynllun terfynol ar gael i'w harchwilio ym mhrif swyddfa Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y cyfeiriad isod a hefyd ar wefan Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

MAE'R DDOGFEN HON AR GAEL MEWN PRINT BRAS NEU AR EBOST AR GAIS I'R CYFEIRIAD ISOD.

*Swyddog Hawliau Tramwy, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog,
Plas y Ffynnon, Ffordd Cambrian, Aberhonddu, Powys, LD3 7HP*

Ebost: row@breconbeacons.org

Gwefan: www.breconbeacons.org

CYNNWYS

	TUD
Rhagair	
1	
Byrfoddau a geirfa	4
Rhestr o fapiau a thablau	6
Crynodeb	8
Cyd-destun Strategol	10

RHAN 1**Cefndir**

1.1	Strwythur y cynllun hwn	
	18	
1.2	Cyflwyniad i'r cynllun gwella hawliau tramwy	
	18	
1.3	Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	
	21	
1.4	Hawliau tramwy cyhoeddus a mynediad arall i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	
	21	
1.5	Gweinyddu mynediad a hawliau tramwy cyhoeddus	
	24	

RHAN 2**Asesiadau o'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus ac Anghenion****Defnyddwyr**

2.1	Cyflwyniad	26
2.2	Y cyd-destun strategol ar gyfer rheoli a gwella hawliau tramwy	
	27	
	2.2.2 – Materion iechyd a chymdeithasol	27
	2.2.3 – Manteision economaidd	
	29	
	2.2.4 – Trafnidiaeth	
	30	
2.3	Cyflwr y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus	
	32	
2.4	Map diffiniol a datganiad	
	36	
2.5	Hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i hawliau tramwy	
	40	
2.6	Rheoli a diogelu'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus ac ardaloedd mynediad	
	44	
2.7	Asesu anghenion defnyddwyr heddiw a fory	
	51	

2.7.7 - Cyfleoedd	58
2.7.10 - Casgliadau	59

RHAN 3**Datganiad Gweithredu ar gyfer Rheoli a Gwella'r Rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

3.1	Cyflwyniad	60
3.2	Tablau Datganiad Gweithredu	
	63	
	SOA1 Monitro ac Asesu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy	
	63	
	SOA2 Gwelliannau i'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus	
	64	
	SOA3 Gwelliannau i ddarpariaeth gwybodaeth	
	66	
	SOA4 Gwelliannau i'r Map Diffiniol a Datganiad	
	67	
	SOA5 Gwella mynediad cyhoeddus drwy gynlluniau amaeth- amgylcheddol	68
	SOA6 Parcio i bobl anabl ac integreiddio trafndiaeth gyhoeddus a 68 mynediad cyhoeddus	

Atodiadau

1.	Rhestr o ymgynghorai ar gyfer Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Drafft	
	69	
	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	
2.	Llyfryddiaeth	73
3.	Ffynonellau ariannu a phartneriaid posibl	
	79	
4.	Arolwg y rhwydwaith hawliau tramwy	80
5.	Strwythur newydd yr Adran Warden fel ag yn Ebrill 2007	
	82	

BYRFODDAU A GEIRFA

Tir Mynediad	<i>Tir comin cofrestredig a thir sydd wedi'i fapio gan CCGC fel tir mynyddig, gwaun, rhos neu fryn (gwlad agored) y mae gan y cyhoedd hawl mynediad iddynt ar droed o dan Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000</i>
BBNP	Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog <i>Yr ardal sydd wedi'i chynnwys ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog</i>
BBNPA	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog <i>Awdurdod lleol gyda diben arbennig sy'n gyfrifol am reoli Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog</i>
BOAT	Cilffordd sydd ar agor i unrhyw draffig <i>Hawl tramwy cyhoeddus gyda hawliau i gerddwyr, marchogion, beicwyr, cerbydau a cherbydau â phŵer mecanyddol.</i>
Llwybr ceffylau	<i>Hawl tramwy cyhoeddus gyda'r hawl i gerdded, marchogaeth neu arwain ceffyl neu i feicio (mae'n rhaid i feicwyr ildio'r ffordd i ddefnyddwyr eraill).</i>
CBS	Cyngor Bwrdeistref Sirol
CS	Cyngor Sir
CCGC	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Deddf CGHT	Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000
Map Diffiniol	<i>Mae'r Map Diffiniol a'r Datganiad yn nodi pob hawl tramwy cyhoeddus gofrestrdedig.</i>
Llwybr troed	<i>Hawl tramwy cyhoeddus gyda hawliau i gerddwyr a defnyddwyr cerbydau anabl dosbarth 2 a 3</i>
Ha	Hectar
Km	Cilometr
LAF	Fforwm Mynediad Lleol <i>Corff statudol o wirfoddolwyr lleol gyda phrofiad o amrywiaeth eang o faterion mynediad. Sefydlwyd LAFau o dan Ddeddf CGHT i gynghori awdurdodau lleol, awdurdodau parc cenedlaethol, CCGC, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill ar wella mynediad y cyhoedd i dir at ddibenion hamdden a mwynhau'r awyr agored. Ar hyn o bryd, mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol dri LAF yn cwmpasu ardaloedd gorllewin, canolbarth a dwyrain y Parc Cenedlaethol ac mae eu cyfarfodydd yn agored i aelodau'r cyhoedd eu harsylwi.</i>
Opsiwn Lleiaf Cyfyngol	<i>Nid oes diffiniad safonol o'r term ond mae'n cwmpasu'r egwyddor o sicrhau'r mynediad hawsaf bosibl i'r amrywiaeth mwyaf o bobl ac mae'n berthnasol fel arfer i gelfi cae. Y drefn flaenoriaeth wrth osod celfi fydd bwch, clwyd a sticil yn unol â lefel defnydd disgwylidig y llwybr a rheolaeth y tir.</i>
Ffyrdd Coll	<i>Ffyrdd coll yw hawliau tramwy cyhoeddus a allai fod wedi bodoli cyn 1949 ond nad oeddent wedi'u</i>

cofrestru'n gyfreithiol. Gallant hefyd fod yn hawliau tramwy cyhoeddus gyda statws wedi'i gofnodi'n anghywir. Mae Adrannau 53 i 56 o Ddeddf CGHT yn datgan y bydd hawliau tramwy heb eu cofrestru sy'n gorfod cael eu profi gyda thystiolaeth hanesyddol yn cael eu dileu yn 2026 pan gollir unrhyw hawliau uwch heb eu cofnodi hefyd.

**Cynlluniau
Trafnidiaeth Lleol**

Roedd yn ofynnol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i bob awdurdod lleol gynhyrchu Cynllun Trafnidiaeth Lleol erbyn 2000; ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu'n awr. Mae Canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd integreiddio polisïau ROWIP gyda rai'r Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol.

**Hawl Tramwy
Cyhoeddus**

Ffordd y mae gan y cyhoedd hawl i'w phasio a'i hailbasio. Mae pedwar math - gweler llwybr troed, llwybr ceffyl, cilffordd gyfyngedig a chilffordd sydd ar agor i unrhyw draffig.

**ROWIP
RB**

Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP)
Cilffordd Gyfyngedig

Mae cilffordd gyfyngedig yn gyn Ffordd a Ddefnyddir fel Llwybr Cyhoeddus (RUPP) ac a gafodd ei deddfu o dan adrannau 47 a 48 o Ddeddf CGHT gan roi hawliau i gerddwyr, marchogion, beicwyr a gyrwyr cerbydau (heb fod yn gerbydau â phŵer mecanyddol). Oherwydd aiddosbarthiad cyfreithiol, nid yw RUPP yn bodoli bellach.

Astudiaeth Gwmpasu

*exeGesIS, Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, **Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, Astudiaeth Gwmpasu** (Medi 2003). Comisiynwyd yr astudiaeth gwmpasu gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'i chyllido'n rhannol gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru.*

**WAG
Canllawiau WAG**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy, Cyfarwyddyd i Awdurdodau Prifffyrdd Lleol (2002)*, dogfen a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynorthwyo awdurdodau lleol i gynhyrchu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy.

MAPIAU A THABLAU

	Tudalen
Tabl 1 Dibenion a blaenoriaethau cynllun gwella hawliau tramwy Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	19
Tabl 2 Hawliau tramwy cyhoeddus a thir mynediad ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	20
Tabl 3 Hyd a statws hawliau tramwy cyhoeddus fesul sir	20
Tabl 4 Hyd hawliau tramwy cyhoeddus yn Ardaloedd y Parc Cenedlaethol	20
Tabl 5 Ffyrdd sirol di-ddosbarth fesul sir	24
Tabl 6 Parc Cenedlaethol Cymru a Bannau Brycheiniog, canlyniadau arolwg cyflwr Cyngor Cefn Gwlad Cymru	33
Tabl 7 Canlyniadau Arolygon 5%, 2002 – 2007	34
Tabl 8 Crynodeb o arolwg cyflwr Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog hyd yma (Ebrill 2007)	35
Tabl 9 Atodlen o geisiadau am hawliau tramwy cyhoeddus sy'n aros am orchymyn - Ebrill 2007	37
Tabl 10 Cynnydd wrth glirio'r ôl-groniad cyfredol o geisiadau	37
Tabl 11 Cynnydd tebygol wrth glirio anghysondebau a nodir	38
Tabl 12 Cyllidebau Mynediad a Hawliau Tramwy	45
Tabl 13 Cyfraniadau awdurdodau unedol	46
Tabl 14 Cyfanswm cyllidebau cyflog 2005/06	46
Tabl 15 Cyfanswm cyllidebau cyflog 2006/07	46
Tabl 16 Costau celfi safonol	48
Tabl 17 Costau cyfredol celfi newydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog	49
Tabl 18 Llwybrau ucheldir a arolygwyd, 2006	50
Tabl 19 Materion a godwyd mewn asesiadau defnyddwyr	53
Map 1 Mynediad llinellog o fewn Parc Cenedlaethol Bannau brycheiniog	83

Map 2 Mynediad ardal o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 84

CRYNODEB

Mae'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy hwn wedi'i gynhyrchu fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ac yn dilyn yr egwyddorion a nodwyd yng Nghyfarwyddyd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy wedi cynnwys adolygiad sylfaenol o gyflwr y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus, sut mae'n cael ei reoli a sut gellir ei wella er budd ei ddefnyddwyr a defnyddwyr posibl. Mae cynhyrchu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy hefyd yn cael ei ystyried fel cyfle i nodi'r staff a'r adnoddau ariannol angenrheidiol i wella a chynnal y rhwydwaith hwn. Ni ddylid ystyried bod cynhyrchu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy hwn yn ddigon ar ei ben ei hun, ond fel rhan o broses wella barhaus.

Mae Rhan 1 y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy hwn yn cyflwyno'r cefndir i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ei rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus a'i ddarpariaethau mynediad cyhoeddus eraill, ac i ddatblygiad y ddogfen ei hun.

Mae Rhan 2 yn disgrifio'r asesiadau a'r ymgynghoriadau cyhoeddus eang sydd wedi'u cyflawni i sefydlu cyflwr ffisegol a chyfreithiol y rhwydwaith cyfredol, ei reolaeth, gwaith hyrwyddo a chyhoeddusrwydd ac anghenion defnyddwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Hefyd, mae swyddogaeth y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a gweithrediad y gwelliannau arfaethedig sydd wedi'u cynnwys ynddo yn cael eu gosod yng nghyd-destun nodau a pholisïau'r llywodraeth yn ogystal â rhai Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, awdurdodau lleol eraill, cynghorau cymuned a grwpiau gwirfoddol. Yn benodol, nodir cysylltiadau rhwng gwell rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus ac agendâu cyfleoedd iechyd, cymdeithasol ac economaidd.

Mae Rhan 3 yn nodi'r Datganiad Gweithredu sydd wedi deillio o gasgliadau'r asesiadau.

Ar y cyfan, mae rhwydwaith y Parc Cenedlaethol mewn gwell cyflwr na'r hyn sy'n gyffredin yng Nghymru. Fodd bynnag, mae llawer o ddiffygion wedi'u nodi ac ar ôl dadansoddi'r asesiadau a'r ymatebion i dair dogfen ymgynghori, roedd hi'n amlwg bod modd rhannu'r materion a'r diffygion a nodwyd i chwe categori:

- Rheoli a monitro gwelliannau
- Gwella ac ehangu'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus
- Gwelliannau yn y wybodaeth a ddarperir am y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus
- Gwelliannau ffisegol i seilwaith yr hawliau tramwy cyhoeddus
- Gwelliannau i'r Map Diffiniol a'r Datganiad
- Gwelliannau amrywiol

Dim ond dau o'r argymhellion a wnaed yn y Cynllun hwn oedd yn destun dadlau

- roedd lleiafrif bach iawn o unigolion ac un grŵp defnyddwyr yn gwrthwynebu'r bwriad i sefydlu hierarchaeth o hawliau tramwy ar gyfer blaenoriaethu'r gwaith cynnal a chadw a gwelliannau

- cafwyd trafodaeth rhwng y rhai sydd am i Awdurdod y Parc Cenedlaethol chwilio am bob ffordd goll bosibl, eu nodi a datblygu cais ar eu cyfer a'r mwyafrif sy'n credu y dylid delio â cheisiadau am ffyrdd coll yn ôl y gofyn os oes cyllid ar gael.

Mae gweddill y ddogfen hon yn sefydlu polisïau a nodi camau gweithredu sy'n seiliedig ar y materion uchod ac sy'n cynnwys:

- Monitro ac asesu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
- Gwelliannau i'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus
- Gwelliannau yn y ddarpariaeth o wybodaeth
- Gwelliannau i'r Map Diffiniol a'r Datganiad
- Gwella mynediad cyhoeddus drwy gynlluniau amaeth-amgylchedd
- Parcio ar gyfer pobl anabl ac integreiddio trafndiaeth gyhoeddus a mynediad cyhoeddus

Mae costau gweithredu, amserlen a phartneriaid sector cyhoeddus a phreifat posibl wedi'u cynnwys ond pwysleisir bod angen cyllid ychwanegol er mwyn gweithredu'r holl welliannau a gynigir. Pwysleisir hefyd na fydd unrhyw newidiadau neu welliannau'n cael eu gwneud a fydd yn newid cymeriad sylfaenol y Parc Cenedlaethol mewn unrhyw ffordd, ac mae'n rhaid rhoi blaenoriaeth i egwyddorion cadwraeth a chynaliadwyedd dros unrhyw anghenion a nodir ar gyfer gwelliannau i'r rhwydwaith.

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau y bydd unrhyw welliannau arfaethedig sy'n deillio o'r Cynllun hwn yn cydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol. Mae hefyd yn bwysig nodi bod yr Awdurdod wedi gwneud ymrwymiad o dan y Ddyletswydd Cydraddoldeb i Bobl Anabl i sicrhau ei fod yn ystyried anghenion pobl anabl ym mhopeth y mae'n ei wneud, o ddarparu gwasanaethau, cyflogi pobl, darparu polisïau, cyfathrebu ac ymgynghori. Dylid cadw hyn mewn cof wrth ddarllen y ddogfen hon.

Bwriedir adolygu cynnydd o ran gweithredu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy hwn yn flynyddol, gan gynnal adolygiad sylweddol bob pum mlynedd. Bydd angen sefydlu gweithdrefnau ar gyfer yr adolygiadau blynyddol a phum mlynedd a fydd yn amlinellu arferion ymgynghori ac adrodd.

CYD-DESTUN STRATEGOL

1. Nod a Gweledigaeth Gorfforaethol Awdurdod y Parc Cenedlaethol

Nodwyd Nod, Gweledigaeth a Bwriad Strategol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn y ddogfen 'Cyfeiriadau'r Dyfodol' a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ar 2 Ebrill 2004. Mae cynnwys y ddogfen yn destun adolygiad cyfnodol a bydd Cyfeiriadau'r Dyfodol yn cyfrannu at gyfeiriad corfforaethol yr Awdurdod a'i waith o ran cynllunio busnes yn ystod yr ugain mlynedd nesaf. Mae Cyfeiriadau'r Dyfodol yn cydnabod pwysigrwydd dynodiad y Parc Cenedlaethol – yn lleol, cenedlaethol a rhyngwladol ac yn rhoi'r cysyniad o gynaliadwyedd yn ganolog yn ein meddyliau.

EIN NOD yw sicrhau dealltwriaeth a chymorth eang i'r Parc Cenedlaethol fel tirwedd warchoddedig a fydd yn cael ei chydabod yn ased lleol, cenedlaethol a rhyngwladol a werthfawrogi.

EIN GWELEDIGAETH yw bod rheolaeth gynaliadwy ar dirwedd y Parc gyda phobl yn gwerthfawrogi ei phriodweddau arbennig a chymunedau lleol yn cael budd o'i dynodiad.

Mae Cyfeiriadau'r Dyfodol yn nodi bwriadau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o dan y penawdau a'r is-benawdau canlynol:-

Gwarchod a Gwella - Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc yn y ffyrdd canlynol:

- Tirwedd
- Bioamrywiaeth
- Treftadaeth y Ddaear
- Treftadaeth Ddiwylliannol

Hyrwyddo Dealltwriaeth – Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn defnyddio ei wasanaethau gwybodaeth, dehongli ac addysg i hyrwyddo dealltwriaeth o nodweddion arbennig y Parc drwy:

- Gynyddu Ymwybyddiaeth
- Hyrwyddo Mwynhad

Cymunedau Cynaliadwy sy'n Ffynnu – Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn meithrin lles cymdeithasol ac economaidd y cymunedau lleol yn y Parc drwy hyrwyddo:

- Gweithgarwch Economaidd Cynaliadwy
- Cymunedau Iach sy'n Ffynnu
- Trafnidiaeth Gynaliadwy

Hwylusir darpariaeth Cyfeiriadau'r Dyfodol drwy Amcanion Corfforaethol yr Awdurdod a nodir yn Adran 2 y Cynllun Gwella a Busnes.

2. Amcanion Corfforaethol yr Awdurdod Parc Cenedlaethol 2007 - 2010

Mae'r Awdurdod wedi pennu'r 14 o Amcanion Corfforaethol canlynol ar gyfer y tymor canolog rhwng 2007 a 2010:

- Arddangos technegau gwarchod tirwedd gynaliadwy sy'n gydnaws â'r Polisi Amaethyddol Cyffredin diwygiedig ar safleoedd sy'n eiddo i Awdurdod y Parc Cenedlaethol
- Defnyddio statws Geoparc i godi ymwybyddiaeth o'r dreftadaeth ddaearegol er budd cymunedau o fewn ac o gwmpas ardal Geoparc Fforest Fawr
- Galluogi buddsoddiad mewn cadwraeth hanesyddol, archeolegol ac ecolegol
- Gwneud y Parc yn fwy hygyrch a chroesawgar i amrywiaeth ehangach o ymwelwyr
- Datblygu a lansio gwefan newydd i sicrhau gwell mynediad i'r cyhoedd i Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'i wasanaethau
- Gwella gwasanaethau cwsmeriaid mewn Canolfannau Ymwelwyr
- Gwella'r rhwydwaith Hawliau Tramwy
- Gwella darpariaeth y gwasanaeth rheoli datblygiad
- Gwneud y defnydd gorau o ddynodiad Parc Cenedlaethol i gynorthwyo cymunedau lleol i addasu i newid yn yr hinsawdd
- Dilyn egwyddorion datblygu cynaliadwy drwy'r Awdurdod a'i waith
- Integreiddio cadwraeth, rheoli ymwelwyr a thwristiaeth gynaliadwy'n llwyddiannus
- Gwella'r broses o wneud penderfyniadau, rheoli perfformiad a chynllunio busnes
- Parhau i wella gwybodaeth a sgiliau ein staff i gynorthwyo darpariaeth gwasanaeth da

3. Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol

Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yw prif ddogfen Awdurdod y Parc Cenedlaethol ac mae'n ofynnol i'w pharatoi o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Mae'n nodi gweledigaeth ar gyfer y Parc cyfan yn ystod y blynyddoedd nesaf, sydd wedi'i chymeradwyo gan amrywiaeth eang o ymgynghoreion. Mae'r cynllun cyfredol yn cwmpasu'r cyfnod 2000-2005

ac, ar yr adeg y paratowyd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy hwn, roedd y broses o baratoi'r cynllun rheoli newydd ar waith. Yng Nghynllun Rheoli cyfredol y Parc Cenedlaethol, mae Pennod 9 yn delio â Mynediad a Hawliau Tramwy, mae Pennod 10 yn cynnwys Hamdden a Phennod 14 yn trafod Trafnidiaeth. Wrth baratoi'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy hwn, rhoddwyd ystyriaeth briodol i adrannau perthnasol y cynllun rheoli gan gadw mewn cof bod y cynllun ar fin cael ei ddisodli. Hefyd, yn y cyfnod ers cynhyrchu'r cynllun rheoli, mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 wedi newid polisi cenedlaethol yn sylweddol.

4. Cynllun Datblygu Unedol wedi'i Gymeradwyo gan yr Awdurdod

Ar 26 Mawrth 2007, cymeradwyodd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol y Cynllun Datblygu Unedol at Ddibenion Rheoli Datblygiad. Y Cynllun Datblygu Unedol yw'r fframwaith polisi diweddaraf ar gyfer y Parc Cenedlaethol. Y cynllun yw'r brif ddogfen bellach ar gyfer yr holl ddibenion cynllunio.

Tra bod nifer o bolisiâu manwl yn y Cynllun Datblygu Unedol sy'n berthnasol i'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, crynhoir cyd-destun cyffredinol y polisi yn Rhan 1, Polisi 4: *Mynediad i Gyfleoedd i Fwynhau'r Parc Cenedlaethol*, sy'n nodi:

Caniateir cynigion sy'n galluogi mynediad i gyfleoedd i fwynhau'r Parc Cenedlaethol, lle

- i) mae'r cynnig yn gynaliadwy o ran ei effaith ar yr amgylchedd a'r gymuned y mae wedi'i leoli ynddi; a**
- ii) nid oes effeithiau annerbyniol ar feysydd sy'n agored i bwysau hamdden.**

5. "Dringo'n Uwch" – Llywodraeth Cynulliad Cymru

Y Strategaeth Dringo'n Uwch yw gweledigaeth ugain mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae'n nodi nodau a thargedau sy'n delio ag iechyd, yr economi, diwylliant, cymdeithas a'r amgylchedd. Mae nodau a thargedau penodol sy'n berthnasol i'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn cynnwys:

- Bydd canran y bobl yng Nghymru sy'n defnyddio amgylchedd naturiol Cymru ar gyfer gweithgareddau awyr agored yn cynyddu o 36% i 60%
- Bydd gan 95% o bobl lwybr troed neu lwybr beicio o fewn cyrraedd cerdded 10 munud iddynt
- Ni ddylai neb fyw fwy na chyrraedd cerdded 6 munud (300m) i ffwrdd o'r llecyn gwyrdd agosaf
- Annog integreiddio cerdded a beicio i fywyd pob dydd ac fel dull hamdden a thrafnidiaeth
- Lleihau'r bylchau sy'n ymwneud â rhyw, oed, anabledd, ethnigrwydd ac amddifadedd

- Trwy gynyddu cyfranogiad mewn ffyrdd cynaliadwy sy'n sicrhau bod ansawdd yr amgylchedd naturiol yn cael ei gynnal a'i wella.

6. Strategaethau Cymunedol

Mae gan naw Awdurdod Unedol dir ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Ychydig iawn o dir sy'n perthyn i ddau o'r rhain (Cyngorau Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chastell-nedd Port Talbot). Mae hyn yn gadael saith Awdurdod – Powys, Sir Fynwy, Sir Caerfyrddin, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf, Blaenau Gwent a Thorfaen – sy'n enwebu Aelodau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol a chyfrannu'n ariannol drwy'r ardoll i'w weithredu.

Rhoddodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 y cyfrifoldeb ar Awdurdodau Unedol i gynhyrchu Strategaeth Gymunedol ar gyfer eu hardal. Nod y strategaethau hyn yw sicrhau y gall pobl leol leisio'u barn, gan sicrhau hefyd fod gwasanaethau lleol, pwy bynnag sy'n eu darparu, yn cael eu cydgysylltu'n well. Mae'r broses yn ceisio rhoi grym i'r gymuned a'i galluogi i ddylanwadu ar y weledigaeth ar gyfer ei hardal yn yr hirdymor, a'r ffordd y dyrennir adnoddau cyhoeddus i gymunedau yn ystod y 10 i 15 mlynedd nesaf.

Crynoir y blaenoriaethau mwyaf perthnasol o'r saith strategaeth gymunedol sy'n cwmpasu'r Parc Cenedlaethol isod:

Strategaeth Gymunedol Powys 2004-2020

Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.

Datblygu'r maes hybu iechyd, atal afiechydon ac ymyrraeth gynnar (tud37)

Amgylchedd

System gludiant integredig a chynaliadwy sy'n ddiogel, sy'n gyfleus, sydd ar gael i bawb ei defnyddio yn y gymuned ac sy'n cefnogi bywyd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Powys (tud117)

Darparu cyfleoedd sydd wedi'u rheoli'n dda i fwynhau mannau agored a chefn gwlad ehangach Powys (tud125)

Strategaeth Gymunedol Sir Fynwy 2004-2008

(Yn disgwyl cyfieithiad)

Gwell Amgylchedd

Lleihau'r defnydd o geir drwy annog opsiynau teithio integredig cynaliadwy eraill (p26)

Cynnal ansawdd ac amrywiaeth cefn gwlad a llecynnau gwyrdd Sir Fynwy er budd pawb yn y gymuned a gwella mynediad i ardaloedd o'r fath i bawb (p26)

Iechyd a Lles

Pobl yn ei chael hi'n haws gwneud dewisiadau iach. E.e. prydau ysgol iach yn hytrach na pheiriannau gwerthu a cherdded yn hytrach na gyrru. (p30)

Cyngor Sir Caerfyrddin

Lle Gwell: Buddsoddi ac Arloesi

Cefnogi darparu trafndiaeth gyhoeddus fwy hygyrch a, lle bo'n briodol, cynlluniau trafndiaeth leol yn y gymuned (tud32)

Strategaeth Gymunedol Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Lle glân, gwyrdd y gall pawb fod yn falch ohono

Gweithio tuag at gael Bwrdeistref Sirol lle gwerthfawrogir, diogelir ac ehangir llecynnau agored a'r amgylchedd naturiol er mwyn darparu lleoedd i bobl i'w mwynhau ac i warchod bywyd gwylt lleol (tud32)

Gwiriad Iechyd

Hyrwyddo ac addysgu pobl yn y cysyniad o Fywyd Iach a Lles gan alluogi unigolion a chymunedau i wneud penderfyniadau ynghylch eu dull o fyw a fydd yn cynyddu iechyd a lles (tud30)

Cynllun Cymunedau Cyngor Rhondda Cynon Taf 2004-2014

Iechyd a Lles

Hyrwyddo ffyrdd o fyw iach a chyfleoedd i gymryd rhan weithredol yn y gymuned (tud21)

Cynllun Cymunedol Blaenau Gwent 2005 - 2009

Yr Amgylchedd

Darparu llecynnau gwyrdd i bawb, gan gynnwys cymysgedd o fannau chwarae, hamdden a bywyd gwylt (tud24)

Gwell cyfleoedd i gymryd rhan a chyfranogi mewn gweithgareddau diwylliannol, chwaraeon, hamdden a byw'n weithgar yn yr amgylchedd naturiol (tud26)

Trafnidiaeth

Hyrwyddo dulliau eraill o deithio, fel cerdded, beicio a hawliau tramwy (tud31)

Diwylliant a Chwaraeon

Cynyddu cyfleoedd byw'n weithgar yn yr amgylchedd naturiol (p35)

Strategaeth Gymunedol Torfaen 2007-2015Iechyd a Lles

Pobl yn teimlo'n ddiogel wrth fynd allan i'r gymuned i ymarfer e.e. cerdded, rhedeg, beicio a chwarae (tud7)

Yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth

Llecynnau gwyrdd glân a diogel i bobl gael mwynhau yno wrth fyw, gweithio, siopa a chwarae (tud15)

7. Cynlluniau Trafnidiaeth Lleol

Roedd yn ofynnol yn ôl Deddf Trafnidiaeth 2000 i bob Awdurdod Unedol gynhyrchu Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar gyfer ei ardal er mwyn nodi ei bolisiau:

"hyrwyddo ac annog cyfleusterau a gwasanaethau trafndiaeth diogel, integredig, effeithlon ac economaidd o'u hardal ac o fewn eu hardal"

Er bod prif ffocws y cynlluniau hyn ar drafndiaeth ffyrdd a rheilffyrdd, mae rhai yn ystyried rôl cerdded, beicio a marchogaeth a'r angen i ddarparu ar gyfer y gweithgareddau hyn. Crynhoir polisiau perthnasol o Gynlluniau Trafnidiaeth Lleol gan bedwar Awdurdod Unedol o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog isod.

PowysNodau Allweddol

- Cynyddu hygyrchedd a gwella cynhwysiant cymdeithasol drwy gynnig trafndiaeth gyhoeddus i wasanaethau cyflogaeth, addysg, hyfforddi, hamdden ac eraill, yn enwedig i bobl sydd heb gar;
- Gostwng y ddibyniaeth ar geir ac ehangu dewisiadau teithio drwy gynnig opsiynau teithio mwy cynaliadwy a fforddiadwy;

- Gwella ansawdd, hygyrchedd, diogelwch a delwedd gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus;
- Cefnogi integreiddiad llawn pob math o drafnidiaeth gyhoeddus (yn ogystal â'r car, cerdded a beicio) i ddarparu teithiau di-dor.

Sir Fynwy

Polisi LTP51

Bydd y Cyngor Sir yn rheoli a gwella'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus ac yn ceisio'u hintegreiddio gyda'r rhwydwaith priffyrdd i hwyluso rhagor o gyfleoedd ar gyfer cerdded fel dull teithio a hamdden.

Polisi LTP52

Bydd y Cyngor Sir yn parhau i weithio gyda Chymdeithas Geffylau Prydain i wella a datblygu cylchffyrdd marchogaeth.

Polisi LTP55

Bydd y Cyngor Sir yn parhau i hyrwyddo beicio fel gweithgarwch hamdden ac fel dull teithio.

Polisi LTP59

Bydd y Cyngor Sir yn annog cerdded fel dull teithio.

Sir Caerfyrddin

Mae'n bolisi gan y Cyngor Sir i:

- Ddatblygu a hyrwyddo rhwydwaith beicio a cherdded ledled y sir, pan a phryd y bydd adnoddau'n caniatáu hynny;
- Cadw a gwella'r hawliau tramwy cyhoeddus a gwrthod datblygiadau sy'n niweidio cyfleoedd ar gyfer marchogaeth a cherdded yn y dyfodol. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd yn ofynnol eu hailgyfeirio neu greu rhai newydd mewn dull cyfleus a phriodol cyn cyflawni'r datblygiadau;
- Sicrhau bod cymaint o bobl â phosibl yn beicio fel dull teithio, drwy ddatblygiad parhaus o rwydwaith cyfleus, diogel ac atyniadol, drwy roi blaenoriaeth i lwybrau; mabwysiadu'r defnydd o archwiliad beicio ac adolygu cynlluniau a datblygiadau priffyrdd; datblygu trefn gynnal a chadw ar gyfer holl lwybrau'r Cyngor; a sicrhau bod beicio'n cael ei integreiddio'n llawn gyda thrafnidiaeth gyhoeddus;
- Cefnogi'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, beicio a cherdded fel y dulliau dewisol o deithio pryd bynnag bosibl.

Merthyr Tudful

9.18 Darparu ar gyfer Beicwyr a Cherddwyr

9.18.1 Yn unol ag amcanion datblygu cynaliadwy a'r angen i ddarparu dewis ehangach i bobl Merthyr Tudful wrth deithio o gwmpas, mae angen hyrwyddo a datblygu rhwydwaith o lwybrau beic a llwybrau sy'n rhoi blaenoriaeth i gerddwyr.... Mae beicio a cherdded hefyd yn darparu cyfle i wella iechyd cyffredinol a lles y gymuned.

9.19 Hawliau Tramwy

9.19.1 Mae hawliau tramwy ym Merthyr yn parhau i gyflawni eu swyddogaeth bennaf o ddarparu mynediad i bobl o fewn eu cymunedau lleol. Yn unol â'r nod cyffredinol o roi rhagor o ddewis i drigolion lleol wrth deithio o gwmpas Merthyr, mae'n bwysig bod y rhwydwaith hawliau tramwy'n cael ei nodi, ei ddiogelu a'i wella. Defnyddir mwy o hawliau tramwy'n awr at ddibenion hamdden yn bennaf ac ar gyfer mynediad i gefn gwlad.

8. Casgliadau

Mae mwyafrif y cynlluniau a'r strategaethau a ddyfynnir yn yr adran hon yn cyfeirio at nifer fach o themâu cyson:

1. Yr angen i ystyried cerdded a beicio fel dulliau arall o deithio yn hytrach na defnyddio cerbydau modur a darparu'n briodol ar gyfer hyn
2. Pwysigrwydd cerdded, beicio a marchogaeth fel gweithgareddau hamdden
3. Y rôl y gall sicrhau mynediad i gefn gwlad ar droed, ar feic ac ar gefn ceffyl ei chyfrannu at wella iechyd corfforol a lles meddyliol y boblogaeth.

Mae'n bwysig felly fod y polisïau sy'n cael eu datblygu yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy hwn yn ategu'r tair thema – trafnidiaeth, hamdden ac iechyd – a bod cysylltiadau priodol yn cael eu gwneud yn y cyfnod gweithredu gyda chynlluniau, rhaglenni a dyheadau Awdurdodau a chyrrff sy'n bartneriaid.

RHAN 1

CEFNDIR

1.1 STRWYTHUR Y CYNLLUN HWN

Mae Rhan 1 y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy hwn yn cyflwyno'r cefndir i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, ei rwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus a'i ddarpariaethau mynediad cyhoeddus eraill, ac i ddatblygiad y ddogfen ei hun.

Mae Rhan 2 yn disgrifio'r asesiadau a'r ymgynghoriadau cyhoeddus eang sydd wedi'u cyflawni i sefydlu cyflwr ffisegol a chyfreithiol y rhwydwaith cyfredol. Hefyd, disgrifir y dull o'i reoli, ei hybu a'i hyrwyddo ac anghenion defnyddwyr ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Mae swyddogaeth y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a gweithrediad y gwelliannau arfaethedig sydd wedi'u cynnwys ynddo yn cael eu gosod yng nghyd-destun nodau a pholisïau Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ogystal â rhai Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac awdurdodau a sefydliadau eraill sy'n bartneriaid.

Mae Rhan 3 yn nodi camau gweithredu ar sail y materion uchod, costau gweithredu ac amserlenni ar gyfer gweithredu. Hefyd, nodir partneriaid sector cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat posibl.

1.2 CYFLWYNIAD I'R CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY

1.2.1 Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn rhoi dyletswydd ar bob awdurdod priffyrdd yng Nghymru a Lloegr i gynhyrchu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (ROWIP)¹ a gwneud darpariaethau ar gyfer awdurdodau lleol i wneud trefniadau gyda pharciau cenedlaethol i gyflawni'r swyddogaeth hon.

Mae'r holl awdurdodau unedol dan sylw wedi cytuno y dylai Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog arwain y ffordd wrth baratoi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol. Ystyrir hyn yn broses o gydweithio gan hysbysu ac ymgynghori â swyddogion o'r awdurdodau unedol drwy'r amser. Yn benodol, eisteddodd cynrychiolwyr o'r Adrannau Cefn Gwlad (y Swyddog Hawliau Tramwy neu Swyddog y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy fel arfer) a'r Swyddogion Cynllun Trafnidiaeth Lleol o'r prif siroedd dan sylw, sef Powys, Sir Fynwy a Sir Caerfyrddin, ar Grŵp Llywio Prosiect ROWIP Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

1.2.2 Mae'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy wedi'i gynhyrchu yn unol â'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a hefyd â Chanllawiau Llywodraeth

¹ Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 a.60

Cynulliad Cymru (“y Canllawiau” o hyn ymlaen) ar gynhyrchu cynlluniau o’r fath.²

Mae cynnwys, strwythur a nodau’r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (a’r dogfennau ymgynghori cynharach i raddau llai) yn cael eu llywio gan ofynion y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy a’r Cyfarwyddyd sy’n ystyried y cynlluniau hyn fel y brif ffordd:

y bydd yr awdurdodau priffyrdd lleol yn ei ddefnyddio i nodi, blaenoriaethu a chynllunio ar gyfer gwelliannau i’w rhwydwaith hawliau tramwy lleol, er lles cerddwyr, seiclwyr, marchogion a phobl â phroblemau symud³

a hefyd fel dull o gynllunio’n strategol ar gyfer:

datblygu, hyrwyddo a rheoli’n well.... hawliau tramwy lleol cyfredol; a newidiadau neu ychwanegiadau i’r rhwydwaith hawliau tramwy.⁴

1.2.3 Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi nodi dibenion ychwanegol ar gyfer ei Gynllun Gwella Hawliau Tramwy drwy ei Astudiaeth Gwmpasu fel y dangosir yn Nhabl 1. Ategir y rhain drwy’r ddogfen hon i gyd, er, yn unol â’r Cyfarwyddyd, bydd hefyd yn archwilio cyfleoedd mynediad ehangach, gan gynnwys y Tir Mynediad newydd sydd ar gael o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

TABL 1 Dibenion a Blaenoriaethau Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog⁵

Diben	Blaenoriaeth
• Darparu dull strategol a mwy cyfannol i’r awdurdod reoli mynediad llinol er mwyn iddo fynd ati’n well i ateb y diben o ‘hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer deall a mwynhau priodweddau arbennig yr ardal’	A
• Darparu sail resymol a chyfiawnadwy ar gyfer cynnig am adnoddau	B
• Darparu mecanwaith sy’n annog rhannu nodau a chyflawni’r nodau hyn drwy weithio mewn partneriaeth	C
• Darparu sail ar gyfer rhaglenni gwaith manylach	C

1.2.4 Mae’r Cyfarwyddyd hefyd yn disgrifio dwy brif elfen o’r cynllun a fydd yn asesu:

i ba raddau y mae hawliau tramwy lleol yn diwallu anghenion presennol ac anghenion tebygol y cyhoedd yn y dyfodol;

² Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, Cyfarwyddyd i Awdurdodau Priffyrdd Lleol yng Nghymru* (2002)

³ Cyfarwyddyd 1.3

⁴ Ibid. 1.4

⁵ exeGesIS, *Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog: Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, Astudiaeth Gwmpasu* (Medi 2003) 4.1 (Diben) (Astudiaeth Gwmpasu)

y cyfleoedd y mae hawliau tramwy lleol yn eu cynnig i ymarfer a gwneud gweithgareddau hamdden eraill yn yr awyr agored, ac i fwynhau'r ardal

*ar gael i'w defnyddio gan bobl ddall neu rannol ddall ac eraill sydd â phroblemau o ran gallu symud*⁶

a, datganiad o'r camau a gynigir i:

*reoli hawliau tramwy lleol, ac ar gyfer sicrhau gwell rhwydwaith o hawliau tramwy lleol, gyda golwg benodol ar y cyfarwyddyd hwn.*⁷

Mae'r Cyfarwyddyd yn disgrifio'r asesiadau manylach gofynnol⁸; mae'r rhain i gyd wedi'u cyflawni gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

MAE AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG YN CEISIO NODI CYFLWR CYFREDOL EI RWYDWAITH HAWLIAU TRAMWY, GAN GYNNWYS UNRHYW DDIFFYGIION A SUT Y GELLIR EI WELLA I DDIWALLU ANGHENION DEFNYDDWYR HEDDIW A FORY.

1.2.5 Mae gwerth y rhwydwaith hawliau tramwy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i'r diffiniad cyfreithiol llwm a ddisgrifir isod yn 1.4.1. Mae'r ddogfen hon felly'n canolbwyntio ar faterion sydd y tu hwnt i gwmpas cytundebau dirprwyo Awdurdod y Parc Cenedlaethol gyda'r awdurdodau unedol, er enghraifft, iechyd, cynhwysiant cymdeithasol, yr economi a thrafnidiaeth. Mae sylw penodol wedi'i roi i holl gynlluniau a strategaethau perthnasol yr awdurdodau hynny i sicrhau bod yr holl bolisïau a phwyntiau gweithredu'n gydnaws.

1.2.6 Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cydnabod mai *Hawliau Tramwy Cyhoeddus yw'r cyfrwng pwysicaf i bobl fwynhau cefn gwlad*⁹ a bod ei rwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus yn ganolog i'r gwaith. Mae felly'n ystyried y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy hwn yn ddogfen strategol ddeng mlynedd sy'n:

*gyfle pwysig i Awdurdod y Parc archwilio cyfleoedd mynediad yn drylwyr yn y Parc Cenedlaethol a sicrhau ei fod yn sicrhau mynediad i gefn gwlad sy'n diwallu anghenion defnyddwyr, tirlfeddianwyr a buddiannau eraill heddiw a fory.*¹⁰

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod mai'r egwyddor gyffredinol wrth gyflawni unrhyw welliannau arfaethedig yw cynaliadwyedd, cadwraeth, a diogelu amgylchedd naturiol a diwylliannol y Parc Cenedlaethol, ei nodweddion a chynefinoedd naturiol a'i briodweddau arbennig fel y nodir

⁶ Cyfarwyddyd 2.1

⁷ Ibid. 2.2

⁸ Ibid. 3.3.1, yn seiliedig ar Adran 60(1)(a) a 60(3)(a) o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

⁹ Strategaeth Twristiaeth Cerdded Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

¹⁰ *Astudiaeth Gwmpasu* (Crynodeb, Casgliad)

yn nogfennau polisi Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.¹¹ Mae hyn yn gyson ag Egwyddor Sandford¹² sydd bellach wedi'i chorffori yn Adran 62 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ac sy'n nodi y dylid canolbwyntio ar gadw a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal os oes gwrthdaro rhwng dau ddiben statudol y Parc Cenedlaethol.

1.2.7 Yn unol â Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol)(Cymru) 2001 a'r Cyfarwyddyd, mae Fforymau Mynediad Lleol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi cyfrannu'n sylweddol at gynhyrchu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy hwn. Mae'r tri Fforwm, sy'n cynrychioli gorllewin, canolbarth a dwyrain y Parc Cenedlaethol wedi bod yn allweddol wrth gynghori ac ymgynghori ar bob agwedd ar y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ym mhob cyfnod.

1.3 PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG

Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, fel y dangosir ar Fap 1, yn cwmpasu ardal o 1,347 cilometr sgwâr (520 milltir sgwâr). Fe'i sefydlwyd ym 1957 o dan amodau Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, a'i dibenion a'i nodau, fel y sefydlwyd yn wreiddiol yn Neddf 1949 ac fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, yw:

*...gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol ...a ... hyrwyddo cyfle i'r cyhoedd ddeall a mwynhau'r nodweddion arbennig.*¹³

Mae'n rhaid i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol hefyd feithrin lles economaidd a chymdeithasol ei gymunedau lleol.

Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog oedd y trydydd parc cenedlaethol i'w sefydlu yng Nghymru ac mae'n bwysig yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gan ddenu ymwelwyr a thwristiaid i'w olygfeydd ysblennydd, ei amgylchedd hamddenol a diarffordd a'i gyfleoedd amrywiol ar gyfer gweithgareddau awyr agored – ar yr hawliau tramwy cyhoeddus yn bennaf.

1.4 HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS A MYNEDIAD ARALL I BARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG

1.4.1 Mae hawliau tramwy cyhoeddus yn rhoi'r hawl i gerdded, marchogaeth, beicio a gyrru cerbydau a cherbydau mecanyddol. Mae defnyddio'r hawliau tramwy hyn yn bwysig iawn mewn sawl agwedd ar fywyd. Y

¹¹ Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, *Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol*, 2000-2005 (Cynllun Rheoli)

¹² "National Park Authorities can do much to reconcile public enjoyment with the preservation of natural beauty by good planning and management and the main emphasis must continue to be on this approach wherever possible. But even so, there will be situations where the two purposes are irreconcilable... Where this happens, priority must be given to the conservation of natural beauty." (Yr Arglwydd Sandford, 1974)

¹³ Deddf yr Amgylchedd 1995 a. 65 (1)

rhwydwaith hawliau tramwy yw'r prif gyfleuster ar gyfer hamdden i bobl sy'n cerdded, beicio a marchogaeth; mae'n ddull cydnabyddedig o drafnidiaeth gynaliadwy; mae'n ddull o gael mynediad i gyfleoedd hamdden eraill¹⁴ ac yn ddull o deithio o fewn ardaloedd preswyl a threfol eraill. Mae hefyd o fudd i'r economi, i dwristiaeth a gweithgareddau chwaraeon ac yn cyfrannu at les corfforol, meddyliol a chymdeithasol y boblogaeth.

Fel y gwelir yn Nhabl 2 a 3, roedd dros 2,880 o hawliau tramwy cyhoeddus cofrestredig yn ymestyn dros 1,983 cilometr o fewn y 65 cymuned ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog; mae'r rhain yn cynnwys llwybrau troed, llwybrau ceffyl, cilffyrdd cyfyngedig (RB) a chilffyrdd sy'n agored i bob traffig (BOAT).

Tabl 2 Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Thir Mynediad ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

	HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS	LLWYBR TROED	LLWYBR CEFFYL	BOAT	RB	TIR COMIN TREFOL A THIR COMIN GYDA GWEITHRED GYFLWYNO*	TIR MYNEDIAD AGORED CGHT*
CYF	2,884	2,304	326	4	250	Amh	Amh
CYF HYD/ ARDAL**	1,983 km	1,415 km	367 km	200 km		4,016 ha	53,305 ha

* Ffigurau oddi ar wefan CCGC

** I'r rhif cyfan agosaf

Tabl 3 Hyd a Statws Hawliau Tramwy Cyhoeddus fesul Sir

SIR	LLWYBRAU TROED (KM)	LLWYBRAU CEFFYL	RB (KM)	BOAT (KM)	CYF (KM)	% O'R RHWYDW AITH CYFAN
BLAENAU GWENT	11.627	0.665	0	0	12.292	0.6
CAERFFILI	0	0	0	0	0	0
SIR CAERFYRDDIN	181.952	40.098	0	0.901	223.947	11.2
MERTHYR TUDFUL	9.713	5.431	0	0	15.144	0.8
SIR FYNWY	402.611	26.754	41.632	0	470.997	23.7
CASTELL-NEDD PORT TALBOT	0	0	0	0	0	0
POWYS	776.138	278.251	155.508	0.262	1,210.159	61
RHONDDA CYNON TAF	29.272	16.195	1.928	0	47.395	2.4
TOR-FAEN	4.089	0	0	0	4.089	0.2

¹⁴ Ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau fel ogofa, dringo, barcuta, paragleidio a chanwïo.

CYFANSWM	1,415.402	367.395	199.064	1.163	1,983.023	100%
-----------------	------------------	----------------	----------------	--------------	------------------	-------------

1.4.2 Mae'r rhwydwaith yn amrywio o fod yn gymharol wasgarog yn y gorllewin (1.69 hawl tramwy i'r km²) i fod yn llawer dwysach yn y dwyrain (3.5 hawl tramwy i'r km² neu 2.4 km yr hawl tramwy i'r km²).

Tabl 4 Hyd Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn Ardaloedd y Parc Cenedlaethol

ARDAL	HYD (KM)	% O'R RHWYDWAITH CYFAN
DWYRAIN	969	49
CANOLBARTH	483	24
GORLLEWIN	531	27
CYFANSWM	1,983	100

Mae sawl rheswm dros y gwahaniaeth hwn, ac un o'r rhain yw'r ffordd roedd y cynghorau sir yn cofnodi eu hawliau tramwy cyhoeddus yn yr 1950au, lle'r oedd anghysondebau'n codi o wahanol ddehongliadau a'r pwyslais a roddwyd ar y dasg hon. Hefyd, mae'r rhwydwaith cyfredol wedi'i etifeddu o gyfnod lle'r oedd diben penodol i'r llwybrau, teithio o fferm i fferm, o fferm i eglwys neu o fferm i farchnad, er enghraifft, felly'r oedd topograffeg a'r defnydd hanesyddol o dir yn cael ei reoli gan ymddygiad cymdeithasol, economaidd a chrefyddol yn cyfrannu at y sefyllfa. Efallai nad oedd yr holl lwybrau hyn o ddiddordeb penodol i ddefnyddwyr hawliau tramwy heddiw; efallai y byddai'n syniad 'uno' rhai llwybrau tameidiog (os ydynt yn dod i ben cyn cyrraedd ffordd neu ar bob ochr i fuarth fferm) i'w gwneud yn fwy atyniadol i fwy o bobl. Efallai nad yw rhai llwybrau anghysbell yn ddefnyddiol iawn neu'n cael eu defnyddio o gwbl o ran gweithgareddau hamdden ac efallai bod gan rai ardaloedd gyda rhwydwaith tameidiog ardaloedd mawr o Dir Mynediad hygyrch bellach.

Nid yw crynodiad o hawliau tramwy o reidrwydd yn golygu gwell rhwydwaith neu gyfleoedd mynediad mwy defnyddiol; mae gwahanol ddwyseddau'n creu gwahanol broblemau sydd angen eu hystyried wrth ddatblygu unrhyw gynigion ar gyfer gwelliannau. Bydd cynigion o'r fath yn ymwneud â gwella'r rhwydwaith cyfredol i gyd, er enghraifft, gwelliannau i arwynebau, draenio a chelfi yn ogystal â newidiadau i hawliau tramwy fel creu, gwyro neu gau llwybrau, yn ôl yr angen.

1.4.3 Mae Tabl 2 yn dangos bod llawer mwy o fynediad yn y Parc Cenedlaethol na'r hyn a ddarperir gan y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus ar ei ben ei hun. Mae tir comin trefol ar gael i'r cyhoedd fwynhau'r awyr iach ac ymarfer,¹⁵ tra bod y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy wedi darparu hawl mynediad ar droed dros Dir Mynediad fel y dangosir ar Fap 2 gan

¹⁵ Deddf Cyfraith Eiddo, 1925 a.195. Mae tir comin trefol o fewn y Parc Cenedlaethol yn cynnwys Mynydd Llangatwg, Blorens a Thir Comin Llangyndir.

Gyngor Cefn Gwlad Cymru.¹⁶ Hefyd, mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi dynodi 9,556 ha pellach o dir yn Dir Mynediad (mae'r ffigurau uchod wedi'u seilio ar y Map Mynediad Dros Dro).

Mae llwybrau goddefol wedi'u caniatáu mewn rhai ardaloedd ac mae rhai tirlfeddianwyr yn fodlon caniatáu mynediad o bryd i'w gilydd. Mewn ardaloedd coedwigol, er enghraifft, mae'r Strategaeth Twristiaeth Cerdded yn amcangyfrif bod y llwybrau hyn yn ymestyn i 620 km o fynediad llinol. Mae rhai tirlfeddianwyr hefyd yn darparu llwybrau goddefol neu fynediad drwy gynlluniau amaeth-amgylcheddol fel Tir Gofal.

Mae hefyd nifer o lwybrau a hyrwyddir yn y Parc Cenedlaethol, fel rhan o Lwybr Cenedlaethol Clawdd Offa sy'n croesi'r Mynydd Du; rhan o Lwybr Dyffryn Wysg a Ffordd y Bannau sy'n treiddio o'r dwyrain i'r gorllewin ledled y Parc cyfan. Mae'r rhain yn defnyddio hawliau tramwy yn ogystal a ffordd cyhoeddus a Thir Mynediad.

Mae ffyrdd sirol di-ddosbarth, heb arwyneb yn rhan bellach o'r rhwydwaith hamdden, ond ni wyddom yn union eu hyd o fewn y Parc Cenedlaethol. Er enghraifft, mae'r Strategaeth Twristiaeth Cerdded yn nodi eu bod yn cyfrif am dros 500 km o lwybrau ychwanegol¹⁷ ond dangosir ffigur mwy realistig yn Nhabl 5 isod.

Tabl 5 Ffyrdd Sirol Di-ddosbarth fesul Sir*

Sir	Hyd (km)
Blaenau Gwent	0
Caerffili	0
Sir Caerfyrddin	13.5
Merthyr Tudful	0
Sir Fynwy	24.75
Castell-nedd Port Talbot	0
Powys	13
Rhondda Cynon Taf	0
Torfaen	0
Cyfanswm	51.25

*mae'r tabl yn cynnwys manylion y ffyrdd sirol di-ddosbarth nad ydynt yn cael eu cyfrif fel Cilffyrdd Cyfyngedig hefyd – amcangyfrifon llac iawn yw'r ffigurau.

Mae llwybrau beic yn adnodd pellach.

1.5 GWEINYDDU MYNEDIAD A HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS

1.5.1 Mae ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cynnwys naw awdurdod unedol, yn amrywio o Gyngor Sir Powys gyda 66% o ardal y Parc i Gaerffili a Chastell-nedd Port Talbot sydd â dim ond 2 hectar yn

¹⁶ Dangosir yr holl Dir Mynediad o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ar wefan CCGC ac ar fapiau Ordnans.

¹⁷ Strategaeth Twristiaeth Cerdded, 2.1. Mae'n debyg bod y ffigur hwn yn cynnwys RB a BOAT.

un.¹⁸ Mae'n cael ei reoli gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, awdurdod lleol diben arbennig a sefydlwyd ym 1996, sy'n cyflawni llawer o ddyletswyddau awdurdod lleol ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys cynllunio, gwarchod a rheoli hawliau tramwy cyhoeddus (o dan bwerau dirprwyedig) a Thir Mynediad.

Yn ogystal â'r dyletswyddau statudol hyn o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, mae'r swyddogaethau hawliau tramwy a ddirprwywyd i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol mewn perthynas â llwybrau troed, llwybrau ceffyl, cilffyrdd cyfyngedig â BOAT yn cynnwys:

- adeiladu, cynnal a chadw, atgyweirio, gosod arwyddion ac archwilio pob hawl dramwy gyhoeddus
- gorfodi'r ddyletswydd bwysicaf o ddiogelu hawliau tramwy cyhoeddus
- adolygu'r Map Diffiniol a'r Datganiad yn barhaus, h.y. Gorchmynion Diwygio Map Diffiniol (ac eithrio Sir Caerfyrddin)
- gorchmynion o dan adran 116 o Ddeddf Priffyrdd 1980

Mae'r Swyddogaethau Hawliau Tramwy sydd i'w hymarfer gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog o dan y ddeddf yn cynnwys:

- gorchmynion llwybrau cyhoeddus o dan a.257 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
- gorchmynion llwybrau cyhoeddus o dan a.26, 118, 119 o Ddeddf Priffyrdd 1980 a chytundebau creu llwybrau cyhoeddus o dan a.25 o Ddeddf Priffyrdd 1980
- gorchmynion rheoleiddio traffig

Mae'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn nodi mai'r Awdurdodau Parc Cenedlaethol yw'r Awdurdodau Perthnasol a'r Awdurdodau Mynediad. Fel Awdurdod Perthnasol, mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ddyletswyddau sy'n ymwneud â cheisiadau a hysbysiadau o gyfyngiadau ar fynediad a phwerau fel Awdurdod Mynediad i wella mynediad i Dir Mynediad. Mae hefyd yn ofynnol o dan y Ddeddf i Awdurdodau Parc Cenedlaethol sefydlu cyrff cynghori ar fynediad a elwir yn Fforymau Mynediad Lleol.

¹⁸ Yr awdurdodau eraill yw Cynghorau Sir Fynwy a Sir Caerfyrddin a Chynghorau Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Thorfaen. Nid oes gan Gaerffili a Chastell-nedd Port Talbot hawliau tramwy cyhoeddus yn y Parc Cenedlaethol.

RHAN 2

ASESIADAU O'R RHWYDWAITH HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS AC ANGHENION DEFNYDDWYR

2.1 CYFLWYNIAD

2.1.1 Mae adran 60 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn nodi y dylai Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy gynnwys asesiad o'r canlynol:

i ba raddau y mae'r hawliau tramwy lleol yn diwallu anghenion y cyhoedd ar hyn o bryd a'r anghenion tebygol i'r dyfodol

y cyfleoedd y mae hawliau tramwy lleol ardal yr awdurdod yn eu darparu ar gyfer ymarfer corff a mathau eraill o adloniant a mwynhad awyr agored

hygyrchedd hawliau tramwy lleol i bobl ddall neu rannol ddall ac eraill sydd â phroblemau symudedd

2.1.2 Mae'r Cyfarwyddyd¹⁹ yn nodi y dylai awdurdodau geisio sefydlu:

y cyd-destun strategol ar gyfer rheoli a gwella hawliau tramwy lleol;

cyflwr y rhwydwaith hawliau tramwy cyfredol, ei ddiffiniadau cyfreithiol, a'r dulliau cyhoeddusrwydd, rheoli a gwarchodaeth;

anghenion cyfredol a thebygol i'r dyfodol y gwahanol ddosbarthiadau o ddefnyddwyr hawliau tramwy lleol, hygyrchedd hawliau tramwy lleol i bobl ddall neu rannol ddall ac eraill sydd â phroblemau symudedd;

nodi meysydd lle ystyrir bod y ddarpariaeth ar gyfer un dosbarth neu fwy o ddefnyddwyr yn ddiffygiol neu'n debygol o fod yn ddiffygiol yn y dyfodol a dynodi pa mor ddrwg yw'r diffygion hynny;

manylion diffygion eraill sydd wedi'u dangos yn yr adolygiad

y cyfleoedd a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella'r rhwydwaith cyfredol, ei reoli a'i ddatblygu; a'r

adnoddau sydd ar gael ac sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion pobl ar gyfer hawliau tramwy lleol

2.1.3 Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi cynnal yr asesiadau hyn ac mae manylion pob un o'r rhain, yn eu tro, isod. Mae'r Datganiad Gweithredu sydd wedi'i gynnwys yn Rhan 3 y Cynllun hwn wedi'i lywio gan ganlyniadau'r asesiadau hyn, ac mae cynlluniau, strategaethau a pholisïau eraill y cyfeirir atynt yn y Cynllun hwn wedi dylanwadu ar y datganiad hefyd.

¹⁹ Cyfarwyddyd 3.3.1

2.2 Y CYD-DESTUN STRATEGOL AR GYFER RHEOLI A GWELLA HAWLIAU TRAMWY LLEOL

2.2.1 Mae'r Gyfarwydddeb Asesu Amgylcheddol Strategol²⁰ (Cyfarwydddeb Ewropeaidd 2001/42/CE) yn nodi bod yn rhaid i gynlluniau sy'n cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd fod yn destun asesiad amgylcheddol ffurfiol. Mae hyn wedi'i ystyried yn ystod y broses o ddatblygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy hwn. Cynghorwyd yr Awdurdod nad oes angen Asesiad, ond, yn gyson â'r Gyfarwydddeb hon a sawl dogfen yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, mae'n rhaid gweithredu'r holl gamau a gynigir yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy mewn modd na fydd yn newid cymeriad hanfodol y Parc Cenedlaethol o gwbl. Pwysleisir hyn, er enghraifft, ym mhob agwedd ar adroddiad *Cyfeiriadau'r Dyfodol*²¹ yr Awdurdod a'i Gynllun Rheoli²² sydd hefyd yn datgan bod angen defnyddio'r tir mewn ffordd gynaliadwy yn unol ag Agenda Leol 21.²³

Yn ogystal â bod yn brif adnodd ar gyfer mwynhau cefn gwlad, mae hawliau tramwy cyhoeddus hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at sawl agwedd ar fywyd fel cynllunio, cymuned, byw'n iach, addysg, hamdden, cefn gwlad, amwynder, chwaraeon, twristiaeth a thrafnidiaeth.²⁴ Mae dogfennau sy'n ymwneud â'r gweithgareddau hyn wedi'u hystyried wrth gynhyrchu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy hwn. Mae'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn eu tro yn cael eu hategu ac yn cyfrannu at gynlluniau a strategaethau sy'n ymwneud â'r gweithgareddau hyn.²⁵ Mae'r Cyfarwyddyd, yn benodol, yn datgan y dylai Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy integreiddio, cyn belled â phosibl, gyda chynlluniau trafndiaeth leol.²⁶

MAE'R CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY HWN YN SICRHAU CYSONDEB YM MHOB AGWEDD AR Y DOGFENNAU HYN.

2.2.2 Materion lechyd a Chymdeithasol

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi nodi'n gyson eu hymrwymiad i wella lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol pob sector o'r boblogaeth yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac wedi creu cysylltiadau rhwng gweithgareddau awyr agored, er enghraifft, a gwella lles.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn nodi targedau'n benodol ar gyfer cynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon awyr agored a gweithgarwch corfforol yn ystod yr ugain mlynedd nesaf, gan gynnwys:

²⁰ troswyd i gyfraith y DU gan Reoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004

²¹ Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, *Cyfeiriadau'r Dyfodol*, Ebrill 2004

²² Cynllun Rheoli, 15.5

²³ Ibid 15.5

²⁴ Astudiaeth Gwmpasu, 3.2.1 (Cysylltu â chynlluniau eraill)

²⁵ Astudiaeth Gwmpasu 3.2.2. (Gweithio mewn partneriaeth)

²⁶ Cyfarwyddyd 2.9

- *Bydd canran y bobl yng Nghymru sy'n defnyddio amgylchedd naturiol Cymru ar gyfer gweithgareddau awyr agored yn cynyddu o 36% i 60%*²⁷
- *Bydd gan 95% o bobl Cymru lwybr troed neu lwybr beicio o fewn cyrraedd taith gerdded 10 munud i'w cartref*²⁸

Mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'i awdurdodau unedol cyfansoddol naill ai strategaethau ar waith, neu maent yn y broses o ddatblygu strategaethau i ategu'r targedau hyn ac mae'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy hwn yn cynnwys cynigion a fydd yn cyfrannu at eu llwyddiant.

Gall y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy hwn gyfrannu hefyd at nodau strategaethau amrywiol Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU ar gyfer cynhwysiant cymdeithasol: Mae *Cymru: Gwlad Well*, a gyhoeddwyd yn 2003, yn nodi agenda Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwneud Cymru'n wlad iachach, fwy ffyniannus ac wedi'i haddysgu'n well gyda'r nodau cyffredinol o:

- Ddatblygu cynaliadwy
- Creu economi deinamig a blaengar
- Mynd i'r afael ag anfantais
- Cyfle cyfartal

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi sefydlu polisi o gyflwyno dimensiwn cynhwysiant cymdeithasol penodol yn ei ddogfennau allweddol. Hefyd, mae'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru wedi datblygu Strategaeth a Chynllun Gweithredu Cynhwysiant Cymdeithasol (Medi 2005). Mae un o'i gylchoedd gwaith, sef *hyrwyddo cyfleoedd cynhwysol i ddeall a sicrhau mwynhad cynaliadwy o nodweddion arbennig y Parciau ar gyfer pobl Cymru a'r Deyrnas Unedig*, ac un o'i nodau, *i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol drwy ehangu mynediad ar gyfer y gymuned ehangach yng Nghymru, y Deyrnas Unedig a thu hwnt a allai gael eu heithrio rhag deall neu fwynhau nodweddion arbennig y Parc yn sgil tlodi, diffyg cyflogaeth, diffyg gwasanaethau, problemau iechyd, diffyg addysg, rhwystrau seicolegol neu anfantais arall*, yn berthnasol iawn i'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy hwn ac yn cefnogi cynigion yn ei gynllun gweithredu.

I gyflawni manteision iechyd a chynhwysiant cymdeithasol, mae'n rhaid i'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy hwyluso dulliau o annog mwy o bobl i fod yn fwy gweithgar, yn bennaf drwy wella'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus i wneud y rhwydwaith a Thir Mynediad yn fwy hygyrch ac atyniadol i fwy o bobl. Yn y nod hwn mae'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy wedi'i lywio gan Gynllun Gweithredu Grŵp Llywio Mynediad i Bobl Anabl Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, y Strategaeth

²⁷ Ibid. Targed 10

²⁸ Ibid. Targed 11

Cynhwysiant Cymdeithasol a'r Cynllun Gweithredu Cynhwysiant Cymdeithasol ynghyd â Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol.

Bydd gweithredu cynigion i gefnogi targedau Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymwneud â mwy o gydweithio â grwpiau a chymdeithasau eraill fel cyngorau cymuned a grwpiau sy'n cynrychioli, er enghraifft, pobl â phroblemau iechyd corfforol a meddyliol, pobl hŷn, a grwpiau lleiafrifol.

DYLAI GWELLIANNAU I'R RHWYDWAITH HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS, GWELL MYNEDIAD I'R RHWYDWAITH AC I DIR MYNEDIAD GYNYDDU CYFRANOGIAD MEWN GWEITHGAREDDAU AWYR AGORED ER BUDD LLES IECHYD CORFFOROL A MEDDYLIOL A DARPARU CYFRWNG AR GYFER CYNHWYSIANT CYMDEITHASOL YN UNOL Â PHOLISIAU LLYWODRAETH Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL A LLYWODRAETH Y DEYRNAS UNEDIG.

2.2.3 Manteision Economaidd

Y prif weithgareddau economaidd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yw ffermio, coedwigaeth a thwristiaeth. Mae Cynllun Rheoli Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn datgan: ... *mae angen ffermio a choedwigaeth i warchod harddwch y Parc a chynnal bywiogrwydd ei gymunedau a ffordd o fyw yn yr hirdymor.*

Mae'r Cynllun yn gwneud y cysylltiad rhwng arferion ffermio a choedwigaeth a chynaliadwyedd a thwristiaeth gynaliadwy ac yn datgan mai twristiaeth yw un o'r diwydiannau pwysicaf yn y Parc.²⁹

Mae twristiaeth i raddau helaeth yn seiliedig ar dirwedd, fflora a ffawna'r ardal a natur hygyrch y nodweddion hyn drwy'r rhwydwaith hawliau tramwy a Thir Mynediad. Mae incwm sylweddol yn deillio o gyfleoedd cyflogaeth a gwariant uniongyrchol y rhai hynny sy'n cerdded, beicio, marchogaeth a gyrru cerbydau ar hawliau tramwy cyhoeddus amrywiol. Mae Bwrdd Croeso Cymru yn pwysleisio hyn yn ei *Strategaeth Cerdded a Seiclo i Gymru 2003*:

Hawliau tramwy yng nghefn gwlad, boed yn llwybrau troed, yn llwybrau ceffyl neu'n fathau eraill o lwybrau, sydd wrth wraidd y cyfleoedd ar gyfer twristiaeth wledig, ac maent felly yn hanfodol ar gyfer economi cefn gwlad Cymru

Mae gwella mynediad i gefn gwlad drwy hawliau tramwy cyhoeddus yn un o'r prif gamau gweithredu yng *Nghynllun Gweithredu ar gyfer y Profiad Cefn Gwlad Bwrdd Croeso Cymru*.

²⁹ Ibid. 13.3

Mae Strategaeth Twristiaeth Cerdded Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus, gan nodi:

Yn syml, does dim amheuaeth mai'r rhwydwaith o lwybrau cyhoeddus yw'r atyniad mwyaf i ymwelwyr yn y Parc, a'i fod yn sail i incwm twristiaeth yr ardal. Wrth beidio â buddsoddi'n ddigonol, mae awdurdodau mewn perygl o golli eu cyfran o'r farchnad i ardaloedd eraill sy'n gallu cynnig cefn gwlad gyda gwell mynediad.³⁰

Mae'n rhagweld y bydd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn:

enwog am ei flaengaredd ym maes twristiaeth gynaliadwy gyda phartneriaid allweddol o'r sector statudol, masnachol, gwirfoddol a chymunedol yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu'r diwydiant. Dylai twristiaeth chwarae rhan bwysicach yn economi lleol y Parc a dylai gyfrannu at fywiogrwydd cymunedau lleol ac integriti'r amgylchedd.³¹

Mae hefyd yn cydnabod bod angen gwella rhai agweddau ar y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus, gan nodi dau o'r cyfyngiadau ar gerdded yn y Parc Cenedlaethol fel cyflwr y rhwydwaith mynediad a rheoli ac atgyweirio difrod erydu.³²

Mae cerdded yn ddull cymharol amgylcheddol gynaliadwy o deithio a cherdded hefyd yw'r gweithgarwch twristiaeth mwyaf poblogaidd a phroffidiol yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r Strategaeth yn nodi 2003 ... *mae data ar gyfer ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn awgrymu bod ychydig dros 2 filiwn o ddyddiau twristiaeth yn cael eu treulio yn y Parc, sy'n rhoi gwerth twristiaeth o £72.6 miliwn i gyd, 6% yn fwy na 2002.³³* Mae hefyd yn awgrymu bod gwerth blynyddol twristiaeth cerdded yn y Parc Cenedlaethol oddeutu £28 miliwn,³⁴ ffigur y disgwylir ei gynyddu drwy weithredu'r cynigion yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy hwn.

MAE AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG YN CYDNABOD BOD Y RHWYDWAITH HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS YN GANOLOG I DWTRISTIAETH GYNALIADWY. MAE'N ASED ECONOMAIDD SYLWEDDOL, SY'N DENU TWRISTIAID SY'N EI DDEFNYDDIO AR GYFER NIFER O WEITHGAREDDAU AWYR AGORED. MAE HEFYD YN CYDNABOD Y POTENSIAL AR GYFER CREU TWRISTIAETH FWY CYNALIADWY TRWY WELLA'R RHWYDWAITH.

2.2.4 Trafnidiaeth

³⁰ *Strategaeth Twristiaeth Cerdded*, 2.4

³¹ *Ibid.* Y Weledigaeth, para.3

³² *Strategaeth Twristiaeth Cerdded*, 2.6

³³ *Strategaeth Twristiaeth Cerdded*, 4.2

³⁴ *Strategaeth Twristiaeth Cerdded*, 4.3. Gwnaed dau gyfrifiad, gan roi ffigurau o £25.04m a £31.23m, disgrifiwyd £28m fel 'ffigur ymarferol rhesymol'.

Mae ffigurau amcanol ar gyfer twf traffig ffyrdd yn awgrymu y bydd cynnydd mewn traffig yn arwain at broblemau oherwydd maint y ffyrdd ac mae hyn wedi arwain at alw am ddarparu atebion cynaliadwy ar gyfer trafndiaeth.

Mae Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cynhyrchu dogfennau sy'n nodi bod trafndiaeth gynaliadwy yn fater pwysig ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datgan bod: *cerdded a beicio'n cynnig ffyrdd iach, hygyrch, cyfleus ac ecogyfeillgar o wneud teithiau lleol.*

Mae'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy hwn yn cydnabod y bydd gwell rhwydwaith o hawliau tramwy cyhoeddus yn rhoi mwy o gyfle i ddefnyddio llai ar gerbydau modur, drwy annog cerdded a beicio yn enwedig ar gyfer teithiau bob dydd, byr a lleol a dylid sicrhau bod mwy o gyfleoedd ar gael. Mae'n amlwg y dylai'r cyfleoedd hyn fod ar gael i bawb, gan gynnwys pobl anabl neu bobl â namau symudedd neu ar y golwg.

Yn ogystal â gwella darpariaeth hamdden yn y Parc Cenedlaethol, byddai ehangu'r rhwydwaith llwybrau ceffyl hefyd yn cynyddu darpariaeth o drafnidiaeth gynaliadwy. Ystyrir bod beicio'n bwysig iawn; mae'n weithgarwch hamdden, yn ddull amgen o drafnidiaeth gynaliadwy ac yn weithgarwch sy'n cyfrannu at yr economi. Mae'r Strategaeth Twristiaeth Beicio i Gymru yn awgrymu bod twristiaeth beicio werth £18 miliwn i Gymru ar hyn o bryd ac mae'n rhagweld y gallai hyn gynyddu i £34 miliwn erbyn 2007. Mae'n cyfleu gweledigaeth o Gymru fel lleoliad twristiaeth beicio blaenllaw yn y Deyrnas Unedig ac Ewrop gyda phedwar cynnyrch twristiaeth beicio allweddol ar gyfer Cymru: beicio mynydd, gwyliau beicio, beicio teulu a theithio ar feic,³⁵ ac mae'r Parc Cenedlaethol yn addas ar gyfer y rhain i gyd. Mae rhai cymunedau ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog eisoes wedi cefnogi hyn, gan nodi mai *un o nodau hirdymor Awdurdod y Parc Cenedlaethol yw defnyddio mwy ar y rheilffyrdd segur yn y Parc ar gyfer llwybrau beicio a hawliau tramwy*,³⁶ tra bod eraill wedi nodi bod angen llwybrau gwahanol i lwybrau tynnu ar gyfer beicio.³⁷

Mae Natural England yn dadlau bod diffyg trafndiaeth gyhoeddus hygyrch a fforddiadwy'n cyfrannu at broblemau eithrio cymdeithasol, ond bod cerdded a beicio ar gael i bawb bron iawn.³⁸ Felly, dylid cynyddu trafndiaeth gynaliadwy, gan gynnwys trafndiaeth gymunedol a thrafnidiaeth gyhoeddus i gael mynediad i hawliau tramwy cyhoeddus yn y Parc Cenedlaethol.

BYDD GWELLIANNAU I'R RHWYDWAITH HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS O FUDD I ECONOMI'R ARDAL A'R DEFNYDDWYR.

³⁵ Strategaethau Cynnyrch Gweithgarwch Bwrdd Croeso Cymru, Crynodeb Gweithredol, *Newid Gêr: strategaeth twristiaeth beicio i Gymru*

³⁶ Cynllun Lleol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (1999), er enghraifft Yscir, Honddu Uchaf, Llanddew, Y Gelli Gandryll, Trallong, Maes-car a Llangors

³⁷ Ibid., er enghraifft, Llangynidr, Llangatwg, Llanelly, Brynmawr, Tredegar, Nantyglo, Blaena, Llanfoist Fawr, Blaenafon, Llanofor, Goetre Fawr a Phont-y-pŵl

³⁸ Gwefan Natural England, llawlyfr Greenways

DYLAI GWELLIANNAU FOD YN RHAN GANOLOG O'R NODAU AR GYFER TWRISTIAETH GYNALIADWY A THRAFNIDIAETH GYNALIADWY, AC AR GAEL I GYMAINT O BOBL Â PHOSIBL. MAE'N RHAID I AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG CHWARAE RHAN BWYSIG YNG NGWELEDIGAETH LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU AR GYFER DYFODOL CYMRU.

39

Rydym yn cydnabod bod ceisio mesur rhai o'r manteision economaidd a chymdeithasol a allai ddeillio o weithredu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn anodd. Yn eu hadroddiad 'The Economic and Social Value of Walking in England' (2003)⁴⁰ mae Dr Mike Christie a Jon Matthews yn nodi nad yw'n ymddangos "bod unrhyw ymchwil sy'n dangos sut mae gwelliannau i lwybr yn effeithio ar y defnydd a wneir o'r llwybr penodol hwnnw. Hefyd, nid yw'n glir a fyddai gwella llwybr yn creu gweithgarwch cerdded ychwanegol, neu'n symud gweithgarwch cyfredol o un llwybr i un arall, ac a fyddai cyfleoedd cerdded ychwanegol yn achosi manteision fel llai o ddefnydd o drafnidiaeth ac amseroedd teithio llai". Maent hefyd yn nodi eu bod wedi "amlygu'r mathau amrywiol o fanteision cymdeithasol sy'n gysylltiedig â cherdded: er enghraifft, manteision iechyd ac ysbrydol. Fodd bynnag, nid oes llawer o ymchwil, os o gwbl, wedi'i chynnal i fesur gwerth economaidd y manteision cymdeithasol hyn... er bod angen ymchwil bellach, mae'n debyg y byddai mwy o ymdrechion i adfer y rhwydwaith hawliau tramwy cyfredol, drwy gael gwared ar rwystrau ac agor llwybrau, yn cynnig manteision economaidd a chymdeithasol ychwanegol sylweddol yn yr ardal honno".

Mae'r Awdurdod yn rhagweld y bydd gwelliannau i'r rhwydwaith yn cael eu gwneud drwy ymgynghori a chydweithio'n agos â rhanddeiliaid ac y gall y defnydd o hierarchaeth y rhwydwaith arfaethedig (gweler 2.6.12) dargedu adnoddau lle mae eu hangen fwyaf.

2.3 CYFLWR Y RHWYDWAITH HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS

2.3.1 Cynhaliwyd arolygon cenedlaethol o gyflwr hawliau tramwy cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr ym 1988 a rhwng 1992 ac 1997, ond cynhyrchwyd adroddiad mwy diweddar a chynhwysfawr ym mis Mai 2003 pan gomisiynodd Cyngor Cefn Gwlad Cymru Arolwg Cyflwr Hawliau Tramwy er mwyn:

- sefydlu cyflwr y rhwydwaith llwybrau yn 2002 a'r cynnydd tuag at gyflawni'r targed cenedlaethol
- sefydlu sut gallai'r cyflwr fod wedi newid ers arolygon blaenorol
- darparu data dechreuol i awdurdodau lleol ei ddefnyddio
- darparu amcangyfrifon o'r adnoddau sy'n ofynnol i gynnal hawliau tramwy cyhoeddus yn iawn yng Nghymru

³⁹ fel sydd wedi'i gynnwys yn Cymru: Gwlad Well Agenda Strategol Llywodraeth Cynulliad Cymru (2000)

⁴⁰ Comisiynwyd gan Gymdeithas y Cerddwyr

Un o'r casgliadau oedd:

...mae'r hawliau tramwy cyhoeddus yng Nghymru mewn cyflwr gwael ar y cyfan. Mae cyflwr gwael y rhwydwaith llwybrau'n ei atal rhag gwireddu ei botensial o ran darparu mynediad i gefn gwlad, twristiaeth gynaliadwy, yr amwynderau y gall pobl leol eu defnyddio a chreu manteision iechyd posibl i ddefnyddwyr.

Roedd hefyd yn nodi bod y gwariant cyfredol yn llai nag un rhan o bump o'r hyn sy'n ofynnol i uwchraddio a chynnal y rhwydwaith yn llawn a bod y dulliau cyfredol o fonitro cyflwr y rhwydwaith yn annigonol. Roedd yr adroddiad yn ystyried Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy fel dull o fynd i'r afael â methiannau.⁴¹

Fel y dangosir yn Nhabl 6, roedd rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus y Parc Cenedlaethol mewn gwell cyflwr na'r hyn sy'n gyffredin yng Nghymru.

Tabl 6A Cymru a Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Canlyniadau Arolwg Cyflwr Cyngor Cefn Gwlad Cymru⁴² (manylion sampl)

	Cyfanswm hyd (Km) (ffig. 4.2b)	Hyd sampl (Km) (ffig.4.2b)	Maint Sampl (ffig. 2.2b)	Nifer y sgwariau (ffig.4.2.2a)	Cyffyrdd, arwyddion boddhaol (ffig. 5.1a)
PCBB	1,867 ¹	138	7.4%	10	44%
Cymru	33,211	3,284	9.9%	225	39%

¹ roedd y ffigurau'n gywir pan gynhaliwyd yr arolwg. Gweler Tabl 2 am y ffigur cyfredol.

Tabl 6B Cymru a Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Canlyniadau Arolwg Cyflwr Cyngor Cefn Gwlad Cymru (manylion cyflwr)

	Cyflwr celfi'r llwybr (ffig. 5.2a)			Pa mor aml y cafwyd rhwystrau fesul 10km (e.e. ffensys, gwrychoedd, llystyfiant) (ffig. 5.3a)		
	boddhaol	anghyfleus	annefn-yddiol	anghyfleus	annefn-yddiol	cyfanswm
PCBB	91%	7%	2%	17.7%	4.7%	22.4%
Cymru	83%	11%	6%	22.9%	12.4%	35.3%

2.3.2 Ers 1999, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi cynnal arolwg blynyddol o gyflwr 5% o'i rwydwaith i gynhyrchu Dangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r arolwg hapsampl hwn, sy'n defnyddio'r tri mesur o fod yn agored, yn hawdd i'w defnyddio a

⁴¹ Arolwg Cyflwr Hawliau Tramwy Cymru 2002 – Adroddiad Terfynol ar gyfer Cyngor Cefn Gwlad Cymru 2003 1.4

⁴² Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn cyfeirio at adran berthnasol Adroddiad yr Arolwg

chydag arwyddion da yn dangos bod gwelliant wedi bod yng nghyflwr y rhwydwaith rhwng 2002 a 2004, ond bod dirywiad cyffredinol wedi bod rhwng 2005 a 2007, fel y dangosir yn Nhabl 7 isod.

Tabl 7 Canlyniadau Arolygon 5%, 2002 – 2007

BLWYDDYN	LLWYBR TROED	LLWYBR CEFFYLAU	RB/BOAT	CYFANSWM (i gyd tua 94km)
2007	72	11	7	90 (78% cyflawn)
Agored				62%
Hawdd i'w ddefnyddio				46%
Arwyddion				72%
2006	116	19	13	149
Agored				66%
Hawdd i'w ddefnyddio				53%
Arwyddion				67%
2005	97	21	9	127
Agored				73%
Hawdd i'w ddefnyddio				62%
Arwyddion				67%
2004	128	17	11	156
Agored				79%
Hawdd i'w ddefnyddio				72%
Arwyddion				69%
2003	118	11	15	134
Agored				78%
Hawdd i'w ddefnyddio				73%

Arwyddion				62%
2002				130
Agored				64%
Hawdd i'w ddefnyddio				71%
Arwyddion				56%

2.3.3 Fodd bynnag, efallai nad yw haparolwg 5% yn portreadu'r rhwydwaith cyfan yn iawn. Yn 2004, penderfynodd y Awdurdod y Parc Cenedlaethol gynnal arolwg o'r rhwydwaith cyfan drwy ddefnyddio gwirfoddolwyr a staff yr Awdurdod. Roedd yr arolwg hwn yn oddeutu 80% cyflawn wrth i ni ysgrifennu'r Cynllun hwn a bydd y wybodaeth ychwanegol a gynhrychir yn ddangosydd mwy gwerthfawr o gyflwr y rhwydwaith. Mae manylion yr arolwg wedi'u cynnwys yn Atodiad 4.

2.3.4 Mae crynodeb o ganlyniadau'r arolwg hwn hyd yma wedi'u cynnwys yn y tabl isod. Mae'r canlyniadau hyn, gyda rhai o asesiadau eraill, wedi'u defnyddio i sefydlu'r Datganiad Gweithredu yn Rhan 3.

Tabl 8 Crynodeb o Arolwg Cyflwr Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog hyd yma (Ebrill 2007)

Nifer y Cymunedau ¹	Nifer yr hawliau tramwy	Nifer y llwybrau troed	Nifer y llwybrau ceffyl	Nifer yr RB	Nifer y BOAT	Cyfanswm hyd (Km)
62	2,256	1,800	270	183	3	1,574.5 (79%)

¹Rhan yn unig o 3 cymuned, 2 arall heb eu cwblhau

Pa mor hawdd oedd eu defnyddio		I ba raddau y cawsant eu defnyddio ²			
Hawdd i'w defnyddio	Agored	Dim	Isel	Canolig	Uchel
832(36%)	1475(65%)	258(11%)	883(39%)	705 (31%)	342 (15%)

¹ gweler atodiad 4

²Ni ellir defnyddio oddeutu 40% o'r llwybrau a ddisgrifir yn andefnyddiol oherwydd y defnyddir llinell arall neu oherwydd rhwystrau. Ni chategoreiddiwyd 3%

Cyflwr yr arwyneb/rhwystrau ¹			
Llystyfiant ar y ddaear	Llystyfiant sy'n taflu drosodd	Rhwyrstr arall	Erydiad
5,430 m (3%)	3,275 m (2%)	310 (14%)	51 (2%)

¹ Casglwyd ffigurau llystyfiant ar ddwy sail wahanol, ac nid ydynt yn llawn werthfawrogi'r gwaith clirio angenrheidiol

Niferoedd a Chyflwr Celfi							
Mynegbost	Angen	Angen	Camfeydd	Camfeydd	Angen	Clwydi	Clwydi

yn ei le ¹	mynegbost ¹	nodwyr llwybr	mewn cyflwr da ²	angen eu hatgyweirio ³	grisau newydd	mewn cyflwr da	angen eu hatgyweirio ⁴
1483	1600	678	615	2,380	1,330	2,806	537
Clwydi i'w hail-osod	Clwydi ceffyl angen eu hatgyweirio	Clwydi ceffyl mewn cyflwr da	Angen clwydi ceffyl newydd	Camfeydd cŵn yn eu lle	Pontydd mewn cyflwr da	Pontydd angen eu hatgyweirio	Angen pontydd pwysig
266	Ni chasglwyd y ffigur yn gyson	488	250	91	348	83	4

¹ Lle maent yn gadael ffordd fetel

² Mae pob camfa newydd yn bodloni'r Safon Brydeinig

³ Roedd y rhain angen gris/grisiau newydd, heblaw am ambell i eithriad

⁴ Angen eu hail-osod yn bennaf; angen ambell i gliced newydd

2.3.5 Fel y disgrifir yn Adran 2.6, mae Adran Hawliau Tramwy Cyhoeddus Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cadw cronfa ddata o waith sydd wedi'i gwblhau a gwaith i'w wneud ar hawliau tramwy cyhoeddus ar sail dymhorol. Bydd hyn, a'r arolwg o gyflwr wedi'i gwblhau (disgwylir ei gwblhau yn ystod Haf 2007) a chronfeydd data gwybodaeth dilynol (disgwylir eu cwblhau gydag adnoddau ychwanegol yn ystod Haf 2008 (gweler 2.10 yn y Datganiad Gweithredu)) yn offeryn gwerthfawr ar gyfer gwaith cynnal a chadw a gwelliannau o ddydd i ddydd ynghyd â darparu man cychwyn eang a fydd yn cynorthwyo i reoli a gweithredu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy hwn yn y dyfodol.

2.4 MAP DIFFINIOL A DATGANIAD

2.4.1 Mae'n ddyletswydd gyfreithiol o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 i awdurdodau priffyrdd gynhyrchu'r hyn a elwir yn 'Fap Diffiniol a Datganiad', sef dogfen gyfreithiol sy'n cofnodi hawliau tramwy cyhoeddus cofrestredig ar ffurf gartograffeg ac ysgrifenedig. Roedd Deddf Cefn Gwlad 1968 yn cynnwys darpariaeth i gyflymu'r broses ac ymgorfforwyd hyn ymhellach yn Neddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a oedd hefyd yn creu dyletswydd i adolygu'r Map Diffiniol a Datganiad yn barhaus.⁴³

Mae Map Diffiniol Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (sy'n cael ei gadw ym mhrif swyddfa'r Parc yn Aberhonddu) yn cynnwys adrannau o'r Mapiau Diffiniol a gedwir gan y saith prif awdurdod unedol sydd wedi dirprwyo'r mwyafrif o'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r adrannau hyn i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol fel y disgrifir yn 1.4

2.4.2 Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn cydnabod *bod Map Diffiniol cywir a chyfoes o'r hawliau tramwy ar gyfer ardal yn tanategu'r gwaith o reoli'r rhwydwaith*,⁴⁴ ac mae'n rhaid i hyn fod yn un o nodau'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy hwn.

⁴³ Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a.53

⁴⁴ Cyfarwyddyd 3.3.4

ER EI FOD YN CAEL EI DDIWEDDARU’N GYSON WRTH I ORCHMYNION GAEL EU CADARNHAU, MAE AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG YN CYDNABOD BOD ANGEN DIWEDDARU’R MAP CYFAN.

2.4.3 Gellir diwygio Mapiau Diffiniol drwy ‘ddigwyddiadau cyfreithiol’ i greu, gwro neu ddiddymu llwybr, i newid statws hawl tramwy neu i ddiwygio ei linell. Gall digwyddiadau cyfreithiol gynnwys:

- Gorchmynion Diwygio Map Diffiniol (DMMO) a gadarnheir yn sgil ceisiadau am hawliau tybiedig neu ddarganfod tystiolaeth hanesyddol berthnasol
- Gorchmynion Llwybr Cyhoeddus (PPO) - gorchmynion dargyfeirio, dileu a chreu
- gorchmynion llys ynadon⁴⁵ - gorchmynion dargyfeirio a chau

Fel y gwelir yn Nhabl 9 isod, mae gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol nifer o geisiadau am orchmynion sydd yn disgwyl sylw mewn rhai o'r awdurdodau unedol cyfansoddol.

Tabl 9 Atodlen o Geisiadau am Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy'n aros am orchmyn - Ebrill 2007

Math o Gais	Sir Caerfyrddin	Sir Fynwy	Powys	Rhondda Cynon Taf	Cyf
Dargyfeirio	5	11	45	3	64
Dileu	0	14	6	0	20
Creu	0	4	8	0	12
Diwygio	0	9	12	0	21
Cyfanswm	5	38	71	3	117

Mae un cais (yn Sir Fynwy) yn dyddio'n ôl i 1989 ond mae'r gweddill ar ôl 1995. Mae 80 o'r ceisiadau hyn wedi'u cymeradwyo gan yr Awdurdod (ond mae angen gwneud gorchmyn o hyd) gyda 38 o geisiadau yn disgwyl penderfyniad.

2.4.4 Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod, ar gyfartaledd, yn cwblhau 25 Gorchmyn Llwybr Cyhoeddus ac un Gorchmyn Diwygio Map Diffiniol y flwyddyn. Ar y sail honno, a chyda'r lefel gyfredol o adnoddau bydd yr ôl-groniad cyfredol o geisiadau am orchmynion llwybr cyhoeddus yn cymryd oddeutu pedair blynedd i'w clirio a bydd ceisiadau am orchmynion diwygio map

⁴⁵ Astudiaeth Gwmpasu 6.3.2

diffiniol yn cymryd 21 mlynedd (heb gynnwys unrhyw geisiadau newydd a gyflwynir yn y cyfamser).⁴⁶

Ar hyn o bryd, mae gorchmynion llwybr cyhoeddus diwrthwynebiad (h.y. y rhai nad yw aelod o'r cyhoedd yn eu gwrthwynebu) yn costio oddeutu £1500 i'r Awdurdod eu prosesu a Gorchmynion Diwygio Map Diffiniol diwrthwynebiad oddeutu £3000. Gall y costau hyn gynyddu tair neu bedair gwaith yn hawdd pan wrthwynebir gorchymyn.

O ystyried yr adnoddau a'r perfformiad cyfredol, mae'r cynnydd wrth glirio'r ôl-groniad cyfredol o geisiadau fel a ganlyn:

Tabl 10 Cynnydd wrth Glirio'r Ôl-groniad Cyfredol o Geisiadau

Math o orchymyn	Cyfradd cynnydd	Nifer y ceisiadau heb eu penderfynu	Nifer y blynyddoedd i glirio'r ôl-groniad	Y gost ar gyfraddau cyfredol
PPO	25/y flwyddyn	96	4	£144,000
DMMO	1/y flwyddyn	21	21	£63,000

* a bwrw bod y ceisiadau i gyd yn rhai diwrthwynebiad

2.4.5 Mae arolygon a gyflawnwyd wrth gynhyrchu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn dangos bod oddeutu 500 o anghysondebau ar hyn o bryd ar y Map Diffiniol a Datganiad. Enghreifftiau yw'r rhain yn bennaf o'r achosion pan nad yw'r map yn gyson â'r sefyllfa ar y tir neu fel arall (oherwydd camgymeriad drafftio ar y map neu newid ar y tir heb ei gofnodi), hawliau tramwy cyhoeddus y mae eu statws yn newid ar ffin weinyddol neu ffyrdd pengaead.

Mae problemau eraill a amlygwyd gan astudiaeth o'r Map Diffiniol a'r Rhestr o Strydoedd (y gofrestr o briffyrdd a fabwysiadir a gedwir gan awdurdodau priffyrdd) yn dangos⁴⁷:

- hawliau tramwy cyhoeddus diarffordd gyda rhywfaint o gysylltiadau, os o gwbl, â'r rhwydwaith ehangach neu gyfleoedd mynediad eraill
- hawliau tramwy cyhoeddus yn croesi prif ffordd
- aneddiadau heb ddigon o gysylltiadau â chefn gwlad
- tir gyda hawliau mynediad cyhoeddus angen cysylltiadau â hawliau tramwy cyhoeddus, ffyrdd neu gymunedau
- gwahaniaethau rhwng y Map Diffiniol ar Arolwg Ordnans
- natur dameidiog y rhwydwaith llwybrau ceffyl

Bydd presenoldeb 500 o anghysondebau ar y Map Diffiniol (a allai gael eu datrys gyda Gorchymyn Llwybr Cyhoeddus, cyfuniad o Orchymynion Llwybr

⁴⁶ Mae manylion pellach am weithdrefnau gorchymyn wedi'u cynnwys yn 'A Guide to Definitive Maps and Changes to Public Rights of Way' CA142 (2003) sydd ar gael gan Natural England (www.naturalengland.org.uk)

⁴⁷ Mae'r rhan fwyaf o'r materion a drafodir yn y pwyntiau bwled hefyd wedi'u codi mewn arolygon defnyddwyr

Cyhoeddus neu gan Orchymyn Diwygio Map Diffiniol, yn dibynnu ar yr amgylchiadau), yn amlwg yn cynyddu'r ôl-groniad o waith Map Diffiniol sydd angen ei wneud. Er mwyn sicrhau bod y Map Diffiniol a Datganiad yn gofnod cywir o hawliau tramwy cyhoeddus a bod yr ôl-groniad o waith yn cael ei glirio, bydd angen cynnydd mawr mewn adnoddau. Ar hyn o bryd nid yw canran sylweddol o'r anghysondebau hyn yn achosi problem i'r cyhoedd neu dirfeddianwyr ac maent yn gymharol academiaidd yn eu natur. Ond gall eraill, er enghraifft, gael effaith uniongyrchol ar eiddo a datblygu'n broblemau wrth i eiddo newid dwylo (a gall hyn arwain at effeithiau posibl ar werth eiddo), neu gall effeithio'n niweidiol ar gywirdeb mapiau masnachol. Mae'n amlwg felly fod angen rhoi blaenoriaeth i'r ôl-groniad er mwyn delio â'r anghysondebau gwaethaf neu fwyaf niweidiol gyntaf.

O ystyried yr anghysondebau ychwanegol a ganfuwyd fel rhan o broses y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a'r adnoddau a'r perfformiad cyfredol, byddai'r cynnydd i glirio'r ôl-groniad hwn fel a ganlyn:

Tabl 11 Cynnydd Tebygol wrth Glirio Anghysondebau a Nodir

Math o orchymyn	Cyfradd cynnydd*	Nifer y ceisiadau heb eu penderfynu	Nifer y blynyddoedd i glirio'r ôl-groniad (gydag adnoddau staff cyfredol)	Cyfanswm y gost ar gyfraddau cyfredol
PPO ¹	25/y flwyddyn	500	20	£750,000
DMMO ²	1/y flwyddyn	500	500	£1,500,000

* a bwrw bod y ceisiadau i gyd yn rhai diwrthwynebiad

¹ y senario gorau posibl – rhagdybio eu bod i gyd yn PPO

² y senario gwaethaf posibl – rhagdybio eu bod i gyd yn DMMO

Mae'n debyg bod y sefyllfa wirioneddol rhywle yn y canol rhwng y rhagfynegiadau hyn ac mae'n debyg bod y costau oddeutu £1,125,000 ac y bydd y gwaith yn cymryd oddeutu 260 o flynyddoedd staff (heb ystyried chwyddiant ac ychwanegiadau eraill).

Gallai staff ac adnoddau ychwanegol gael effaith sylweddol ar y ffigurau hyn. Er enghraifft, gallai aelod o staff ychwanegol a chynnydd 100% yn y gyllideb (hyd at £20,000) ddyblu'r perfformiad cyfredol. Yn y bôn, gellid dileu ôl-groniad o 500 o orchymynion llwybr cyhoeddus mewn 10 mlynedd. Byddai hyn yn gorfod ystyried y ffaith y byddai angen cynyddu ymrwymiad amser staff yr Adran Gyfreithiol hefyd o 10% i 20%.

Nid yw'r cyfrifiadau hyn yn ystyried y ffaith y gallai llawer o ffyrdd coll fod yn y Parc Cenedlaethol (gweler 2.4.8), a fyddai'n cynyddu'r ôl-groniad ymhellach ac ychwanegu'n sylweddol at y costau pe baent yn cael eu hawlio.

2.4.6 Mae'r Asesiadau Defnyddwyr a drafodir yn 2.7 yn amlygu'r angen i wella darpariaeth llwybrau ceffyl, yn enwedig rhagor o lwybrau cylchol a mwy o gysylltiadau â'r rhwydwaith llwybrau ceffyl. Mae'r rhwydwaith llwybrau

ceffyl yn y Parc Cenedlaethol yn gymharol fach, dim ond 367km, ac fel y soniwyd eisoes, mae'n dameidiog. Mae hon yn broblem benodol, er enghraifft, yn Sir Fynwy lle mae'r rhwydwaith yn cael ei effeithio gan lefelau uchel o anghysondebau. Gallai hyn effeithio ar y Map Diffiniol a Datganiad gan y bydd angen cofrestru mwy o lwybrau ceffyl a bydd angen uwchraddio mwy o lwybrau. Bydd hyn yn effeithio ar lwyth gwaith a bydd angen adnoddau pellach i ddatblygu'r ardal hon.

Gall gwaith datblygu yn y dyfodol hefyd greu mwy o waith Map Diffiniol drwy ddarparu mwy o lwybrau cerddwyr a beicio mewn, a gerllaw, aneddiadau y bydd angen eu cofrestru. Mae Cynllun Datblygu Unedol yr Awdurdod yn cefnogi mentrau o'r fath (polisiâu ES44 ac ES45) lle darperir llwybrau i ysgolion, cyfleusterau cymunedol a gweithleoedd; cysylltu cymunedau; cysylltu'n agos â chyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus; annog cerdded fel prif ddull mynediad a defnyddio rheilffyrdd segur, llwybrau coedwig, llecynnau gwag ar lan afonydd, camlesi a pharciau llinellog fel llwybrau beicio newydd.

- 2.4.7** Lle mae anghysondebau, problemau neu fylchau wedi'u nodi yn y rhwydwaith hawliau tramwy, efallai y bydd yn bosibl darparu datrysiad tymor byr i ganolig neu ddefnyddio llwybr goddefol. Mae defnyddio mynediad goddefol drwy gynlluniau amaeth-amgylchedd fel Tir Gofal (a weinyddir gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ac yn ddiweddarach gan Lywodraeth Cynulliad Cymru) yn cynyddu ac er bod angen ymgynghori â'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ar eu creu nid oes llawer o gynllunio strategol ar gyfer eu defnyddio o fewn y rhwydwaith mynediad ehangach. Yn sgil y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy hwn bydd cofnod o anghysondebau, problemau a bylchau ar gael a gellid defnyddio hwnnw fel sail ar gyfer trafodaethau yn y dyfodol gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth iddo ddatblygu rhwydwaith mynediad goddefol amaeth-amgylchedd.
- 2.4.8** Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi ceisio amcangyfrif nifer y ffyrdd coll a allai fodoli yn y Parc Cenedlaethol er mwyn cyfrifo nifer y ceisiadau posibl a'r adnoddau sy'n ofynnol i ddelio â nhw. Mae amcangyfrifon yn awgrymu bod rhwng 2 a 5 o ffyrdd coll posibl ym mhob cymuned, sy'n rhoi cyfanswm o rhwng tua 130 a 350 o geisiadau posibl. Mae'n anodd amcangyfrif costau, ond drwy ddefnyddio ffigurau o 2.4.4 uchod a rhagdybio y byddai pob cais yn ddiwrthwynebiad, ystyrir bod costau o rhwng £390,000 a £1,050,000 yn rhesymol. Fel y nodwyd eisoes, byddai ceisiadau a wrthwynebir yn cynyddu'r costau'n sylweddol.
- 2.4.9** Ymddengys bod barn ymgynghoreion wedi'i rhannu rhwng y rhai a oedd am i Awdurdod y Parc Cenedlaethol fuddsoddi adnoddau ar unwaith i ymchwilio i ffyrdd coll a'u datrys a'r mwyafrif sy'n weddill yn credu na ddylid ymchwilio'n rhagweithiol i ffyrdd coll, er mwyn gallu canolbwyntio adnoddau a gwelliannau ar y rhwydwaith cyfredol.

YN AMODOL AR DDARPARU ADNODDAU YCHWANEGOL, BYDD AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL BANNAU BRYCHEINIOG YN

DELIO Â CHEISIADAU FFYRDD COLL WRTH IDDYNT GAEL EU CYFLWYNO.

2.4.10 Mae Atodlen 5 a 6 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 wedi cyflwyno gofynion newydd i Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 a Deddf Priffyrdd 1980 i awdurdodau lleol gadw a chyhoeddi cofrestrau o geisiadau ar gyfer Gorchmynion Diwygio⁴⁸ a rhai mathau o orchmynion dargyfeirio a dileu⁴⁹. Hefyd, mae'n ofynnol yn ôl Adran 31A o Ddeddf Priffyrdd 1980 i awdurdodau gadw a chyhoeddi cofrestr o ddatganiadau a gyflwynir a datganiadau a gofnodir o dan adran 31(6) y Ddeddf honno. Mae'n rhaid cadw pob cofrestr ar bapur ac yn electronig ac mae'n rhaid iddynt fod ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio ym mhrif swyddfa'r awdurdod ac ar wefan yr awdurdod.

2.4.11 Daeth y Rheoliadau sy'n ymwneud â'r newidiadau hyn i rym ar 15 Ionawr 2006⁵⁰. Nid yw'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r Rheoliadau hyd yma, yn bennaf oherwydd ei fod wrthi'n ailadeiladu'r wefan. Fodd bynnag, dylai'r cofrestrau gael eu cynnwys ar y wefan newydd.

2.5 HYRWYDDO A RHOI CYHOEDDUSRWYDD I HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS

2.5.1 Mae'r Cyfarwyddyd yn pwysleisio pwysigrwydd gwaith hyrwyddo a chyhoeddusrwydd i'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus, gan nodi,

Mae rhannu gwybodaeth â'r cyhoedd yn gallu gwella'u dealltwriaeth o gefn gwlad a'r gofal amdano yn y tymor hir. Mae hefyd yn helpu i gynyddu hyder defnyddwyr a thirfeddianwyr ynghylch eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Gwybodaeth yw'r allwedd i annog ymwelwyr i ymweld ag ardal a hybu cyfleoedd iddynt fwynhau cefn gwlad drwy gerdded, seiclo a marchogaeth.⁵¹

Mae'n ychwanegu y bydd adolygiad o'r sefyllfa gyfredol yn cyfrannu at y camau gweithredu sydd eu hangen i greu gwelliannau. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ategu'r datganiadau hyn.

2.5.2 Nod adran Gwasanaethau Ymwelwyr Awdurdod y Parc Cenedlaethol yw codi ymwybyddiaeth, parch a dealltwriaeth o'r Parc Cenedlaethol gan hefyd hybu cyfleoedd i fwynhau. Mae'r gwasanaethau gwybodaeth, addysg a dehongli'n ceisio cynyddu hyder y cyhoedd er mwyn i ragor o bobl fod yn hapusach i ddefnyddio'r rhwydwaith hawliau tramwy i gyfoethogi eu profiad yn y Parc. Gellir cyflawni hyn drwy rwydwaith o Ganolfannau Croeso ac Asiantaethau Gwybodaeth Pentref, tafenni, llyfrau, paneli dehongli, arddangosfeydd, digwyddiadau a theithiau tywysedig.

⁴⁸ Adran 53B o Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981

⁴⁹ Adran 121B o Ddeddf Priffyrdd 1980

⁵⁰ Rheoliadau Hawliau Tramwy Cyhoeddus (Cofrestrau) (Cymru) 2006

⁵¹ Cyfarwyddyd y Cynulliad Cenedlaethol, 3.3.11

Mae'r staff addysg yn trafod y Côt Cefn Gwlad a hawliau tramwy cyhoeddus mewn sgysiau rhagarweiniol ac ar deithiau cerdded gan ddarparu gwybodaeth fanylach ar lefel TGAU a lefelau uwch. Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wrthi ar hyn o bryd yn drafftio Strategaeth Ddehongli a Strategaeth Wybodaeth a fydd yn cyd-fynd ag adrannau perthnasol o ddatganiad gweithredu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy hwn.

2.5.3 Mae'r Adran Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu yn hyrwyddo'r holl waith mynediad, hawliau tramwy cyhoeddus a'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy drwy ddatganiadau i'r wasg a thrwy erthyglau yn eu cylchlythyr sy'n cael ei anfon i gynghorau cymuned a grwpiau cymunedol. Maent hefyd yn gyfrifol am wefan Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

2.5.4 Hefyd, mae grwpiau ac unigolion y tu allan i Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn hyrwyddo'r Parc Cenedlaethol yn gyson drwy ddeunydd darllen, deunyddiau addysgol ac ar lafar gwlad.

2.5.5 Cyflogir staff ymroddedig i hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i'r Parc Cenedlaethol, gan gynnwys ardaloedd o Dir Mynediad a'i rwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus. Nod y dulliau a ddefnyddir yw hysbysu ac annog cyfranogiad ac maent yn cynnwys:

- Llyfrau a thafleni - Mae'r Parc Cenedlaethol wedi denu adnodd llenyddol enfawr; mae ei dopograffeg, daeareg, ecoleg a bioamrywiaeth, ei hanes a'i archaeoleg i gyd yn destunau sawl llyfr a thaflen ac yn aml mae'r cyhoeddiadau hyn yn hyrwyddo teithiau cerdded penodol sy'n defnyddio'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus. Bydd llwyddiant y Awdurdod y Parc Cenedlaethol wrth ennill statws Geoparc ar gyfer rhan o ardaloedd y canolbarth a'r gorllewin yn sicr o arwain at gynnydd mewn cyhoeddiadau o'r fath. Fodd bynnag, mae'r ymchwil ar gyfer y ddogfen hon wedi ystyried y cyhoeddiadau hynny a gynhyrchwyd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn unig, neu ar y cyd, ac ar lefel eilaidd, a chyhoeddiadau gan eraill a werthir yng nghanolfannau Awdurdod y Parc Cenedlaethol.
- Cynhyrchir cylchlythyrau fel y disgrifir uchod a chyhoeddir rhaglen o deithiau cerdded tywysedig a digwyddiadau bob blwyddyn.
- Byrddau Gwybodaeth a Ddehongli yn y Parc Cenedlaethol – Mae'r Strategaeth Ddehongli ar gyfer y Parc Cenedlaethol yn bwriadu codi paneli cyfeiriadedd gerllaw mynedfeydd allweddol / manau penderfynu yn y Parc Cenedlaethol. Mae rhai o'r rhain wedi'u gosod eisoes a'u nod yw sicrhau bod ymwelwyr yn sylweddoli eu bod yn y Parc Cenedlaethol, beth sydd i'w weld, sut mae cyrraedd manau sydd o ddiddordeb iddynt a lleoliad cyfleusterau pwysig. Yn ddiweddar gosodwyd peiriant sgrin gyffwrdd yn Llanddewi Nant Hodni fel rhan o Brosiect Arddangosiad Trawsffiniol y Mynydd Du sy'n darparu mynediad i amrywiaeth eang o wybodaeth.

- Byrddau Gwybodaeth a Dehongli mewn Canolfannau Croeso - Mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol hefyd fyrddau gwybodaeth a dehongli mewn Canolfannau Croeso yn Aberhonddu a'r Fenni. Fodd bynnag, ei brif ganolfannau yw ei Ganolfannau Ymwelwyr yn Libanus ger Aberhonddu, Parc Gwledig Craig y Nos a Llanymddyfri. Yn ogystal â'r byrddau gwybodaeth a dehongli mawr, mae staff yn cynghori'r cyhoedd ar bob agwedd ar y Parc Cenedlaethol, gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am Dir Mynediad, hawliau tramwy ac amodau lleol; gallant awgrymu llwybrau sy'n amrywio o deithiau ysgafn hanner awr i ddyddiau mwy anturus; mae gan ganolfannau hefyd stoc o gyhoeddiadau perthnasol a mapiau Arolwg Ordnans.
- Papurau newydd, teledu a radio lleol a chenedlaethol – Mae'r adran Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu'n aml yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg i bapurau lleol a chenedlaethol. Mae'r rhain yn ymwneud â'r holl faterion sy'n gysylltiedig â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, digwyddiadau a chyhoeddiadau, gan gynnwys y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.
- Gwefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog – Mae gwefan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn rhoi gwybodaeth am deithiau cerdded tywysedig. Mae hefyd yn cynnwys rhai dogfennau gwybodaeth sy'n ymwneud â'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy hwn, gwybodaeth sy'n ymwneud â Fforymau Mynediad Lleol a'r Tir Mynediad sydd ar gael yn sgil cyflwyno Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy ym mis Mai 2005.
- Digwyddiadau ac arddangosfeydd.
- Postio uniongyrchol.

2.5.6 Mae Strategaeth Twristiaeth Cerdded yr Awdurdod yn cynnwys adolygiad o ddarpariaeth gwybodaeth sydd ar gael i bobl sy'n ymweld â'r Parc Cenedlaethol am y tro cyntaf. Fel y gellid ei ddisgwyl mae casgliad enfawr o wybodaeth ar gael ar gyfer cerddwyr yn bennaf. Mae'r Strategaeth yn cynnig amrywiaeth o gamau gweithredu i gyflawni ei amcanion, ac mae rhai ohonynt yn berthnasol i'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Bydd y camau gweithredu NPP4, WTP1 - 3, IS1 - 10, IS12 - 13 ac IS15 - 16, os ydynt yn cael eu gweithredu, yn cynyddu amrywiaeth, ansawdd a darpariaeth y wybodaeth i'r cyhoedd yn sylweddol.

2.5.7 Roedd Adroddiad Parkin⁵², a gomisiynwyd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol i adolygu darpariaeth gwybodaeth, dehongli ac addysg yr Awdurdod, yn cynnwys nifer o argymhellion o ran darparu gwybodaeth i bobl leol, ymwelwyr ac ymwelwyr posibl. Nid yw'r rhain wedi'u cyfyngu i hyrwyddo hawliau tramwy ac maent yn ceisio gwella'r gwaith o hyrwyddo nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol ac annog y defnydd o'i gyfleusterau'n rhagweithiol.

⁵² Strategaeth Gwybodaeth, Dehongli ac Addysg Bannau Brycheiniog (2003)

2.5.8 Mae'r argymhellion yn yr adroddiad yn cynnwys:

- bydd rhagor o bwyslais yn cael ei roi ar greu gwell gwefan ond mae angen ei rheoli'n dda a'i datblygu'n barhaus
- mae angen gwella'r ddarpariaeth gwybodaeth i eraill sy'n cyhoeddi gwaith ysgrifenedig am y Parc a chwrdd â'r cyhoedd drwy sesiynau briffio rheolaidd
- mae achos dros sicrhau presenoldeb yng Nghanolfan Croeso Caerdydd gydag arddangosfa fach a thaflen ar y Parc
- cyflawni safon llawer uwch o ddarpariaeth gwasanaeth gwybodaeth ym mhob un o'r Canolfannau Croeso o gwmpas y Parc ac mewn mannau dylanwadol eraill
- gwell amrywiaeth o ddeunydd darllen a chyhoeddiadau am ddim
- gwella'r lefel o wybodaeth a ddarperir yng Nghanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol
- hyfforddi staff y Ganolfan Croeso ar y Parc, ei briodweddau a'i nodweddion arbennig, ei gyfleusterau, teithiau cerdded, materion tywydd, diogelwch, dillad ac ati
- 'llinell gymorth' yn darparu gwybodaeth am y Parc yn ddyddiol
- datblygu amrywiaeth o ddeunydd darllen am ddim am y Parc, gan gynnwys y papur newydd i ymwelwyr
- cynyddu'r paneli cyfeiriadaedd ymwelwyr mewn lleoliadau allweddol ledled y Parc

Mae'r adroddiad yn cynnwys rhaglen waith wedi'i chostio'n llawn i roi'r argymhellion hyn ar waith. Mae rhai o'r argymhellion hyn eisoes wedi'u rhoi ar waith. Er enghraifft, mae llawer o baneli cyfeiriadaedd a gwybodaeth wedi'u codi mewn lleoliadau allweddol ledled y Parc Cenedlaethol yn darparu gwybodaeth am Dir Mynediad a gweithredu rhan 1 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

2.5.9 O'r asesiad o anghenion defnyddwyr cyfredol a darpar ddefnyddwyr yn 2.7, cododd llawer o faterion sydd â chysylltiad agos â'r adolygiad hwn o ddulliau hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i'r Parc. Yn benodol, nodwyd llawer o faterion a oedd, i ryw raddau, yn gysylltiedig â'r ddarpariaeth gwybodaeth:

- Mae angen rhagor o deithiau cerdded byr â thema
 - Mae angen rhagor o deithiau cerdded hawdd i'w dilyn
 - Mae angen rhagor o lwybrau beicio oddi-ar-y-ffordd ar gyfer teuluoedd
 - Mae angen rhagor o lwybrau diogel ar gyfer beicwyr ar ffordd gwledig
 - Mae angen rhagor o lwybrau marchogaeth o ansawdd uchel
- Hefyd, nododd Arolwg Ymwelwyr De Ddwyrain Cymru 2005⁵³ fod 30% o ymatebwyr yn credu y byddai llety mwy addas i feicwyr yn golygu y byddent yn llawer mwy tebygol o feicio yn y Parc Cenedlaethol a nododd 33.2% y byddai gan fwy o lwybrau bryniog yr un effaith.

⁵³ Research and Marketing Cyf. Chwefror 2006

Hefyd, byddai gwybodaeth dda am ganolfannau marchogaeth yn golygu y byddai 56.2% o ymatebwyr yn llawer mwy tebygol o farchogaeth yn y Parc Cenedlaethol.

2.6 RHEOLI A DIOGELU'R RHWYDWAITH HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS AC ARDALOEDD MYNEDIAD

2.6.1 Yr Adran Mynediad a Hawliau Tramwy o fewn yr Adran Cefn Gwlad sy'n gyfrifol am reoli a diogelu'r rhwydwaith hawliau tramwy ac ardaloedd mynediad cyhoeddus eraill yn y Parc Cenedlaethol ar hyn o bryd.

Y Tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus (un swyddog a chynorthwy-ydd) sy'n gyfrifol am bob mater sy'n ymwneud â hawliau tramwy cyhoeddus. Er enghraifft, maent yn ymdrin â phroblemau (a sbarduno camau gorfodi os oes angen) ac ymholiadau wrth iddynt godi. Mae'r Tîm Mynediad yn ymdrin â rheoli Tir Mynediad a gweinyddu Fforymau Mynediad Lleol. Mae'r Swyddog Mynediad yn gyfrifol hefyd am reoli erydiad ar uwchdiroedd ac mae wedi arwain y gwaith o gynnig am gyllid allanol ar gyfer hyn a gweithredu'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

Yn gyffredin â holl waith Awdurdod y Parc Cenedlaethol, mae eu gwaith yn cael ei lywodraethu gan amodau cynaliadwyaeth a chadwraeth, a bydd yr amodau hyn yn parhau mewn unrhyw gynigion ar gyfer gwelliannau yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.

2.6.2 Mae'r Tîm Hawliau Tramwy yn cadw mewn cysylltiad â phob awdurdod unedol cyfansoddol a grwpiau budd ar faterion sy'n ymwneud â hawliau tramwy cyhoeddus, yn ymdrin â cheisiadau ar gyfer Gorchmynion Llwybr Cyhoeddus a Gorchmynion Diwygio Map Diffiniol. Mae gan y Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus gyllideb o £10,000 i roi cyhoeddusrwydd sy'n ofyniad statudol ar unrhyw orchmynion sydd angen eu gwneud (er bod ymgeiswyr yn talu mewn achosion penodol) ac ar gyfer unrhyw orchmynion rheoleiddio traffig. Mae gorchmynion yn gofyn am lawer o amser y Tîm ynghyd ag oddeutu 10% o amser Cyfreithiwr yr Awdurdod a'r Cynorthwy-ydd Cyfreithiol.

Mae'r Tîm hefyd yn cyngori cydweithwyr, pwyllgorau Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Fforymau Mynediad Lleol ar faterion sy'n ymwneud â hawliau tramwy cyhoeddus ac maent yn trefnu a chynnal arolygon o hawliau tramwy.

2.6.3 Mae'r tair ardal⁵⁴ yn y Parc Cenedlaethol yn cael eu rheoli gan Reolwyr Ardal a thîm o wardeniaid. Mae llwythi gwaith y tîm ar hawliau tramwy lleol yn amrywio o tua 30% i 60%. Mae hyn yn cynnwys rheoli'r rhwydwaith o ddydd i ddydd ynghyd â chynllunio a chyflawni atgyweiriadau.

2.6.4 Mae'r timau eisoes yn gyfrifol am nodi a gweithredu gwelliannau penodol yn y rhwydwaith, rhoi cynllun gweithredu ar waith bob blwyddyn a

⁵⁴ Mae dwy ardal reoli bellach yn dilyn adolygiad o'r Timau Ardal ac Ystâd a drafodir yn 2.6.11

gweithio'n agos yn aml gyda swyddogion o awdurdodau unedol cyfansoddol a grwpiau lleol a chenedlaethol a denu arian o ffynonellau allanol.

Mae arian allanol wedi'i dderbyn eisoes ar gyfer rhai prosiectau. Roedd Prosiect Erydiad Ucheldir yn cynnwys cydweithio â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a derbyniodd gyllid gan Adfywio, er enghraifft. Roedd Prosiect Arddangosiad Trawsffiniol y Mynydd Du yn rhan o bartneriaeth rhwng Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, yr Asiantaeth Cefn Gwlad, Cyngor Sir Henffordd, y Fforymau Mynediad Lleol perthnasol a'r Gymdeithas Cerddwyr Anabl a oedd yn gwneud gwelliannau i rai hawliau tramwy i gysylltu Tir Mynediad yn rhan ddwyreiniol y Mynydd Du, gan gynnwys, ymysg pethau eraill, gwelliannau penodol ar gyfer pobl anabl.

2.6.5 Mae'r Awdurdod y Parc Cenedlaethol hefyd yn cynnwys gwirfoddolwyr yn ei waith hawliau tramwy cyhoeddus. Mae llawer yn cyfrannu at yr arolwg parhaus o gyflwr y rhwydwaith cyflawn; mae eraill yn ymuno â gweithgorau i gynorthwyo i gynnal a chadw'r rhwydwaith. Defnyddir contractwyr hefyd i wneud rhywfaint o waith cynnal a chadw ac maent wedi cyfrannu at y gwaith o reoli erydiad ucheldir.

2.6.6 Dangosir yr adnoddau sydd ar gael bob blwyddyn i reoli'r holl rwydwaith a'r holl ardaloedd mynediad yn Nhabl 12 isod. Mae gan yr Adran Hawliau Tramwy a'r Adran Mynediad gyllideb gwariant cyfunol o £19,000 (ac eithrio costau staff). Hefyd, mae'r gyllideb ar gyfer gwaith mynediad a hawliau tramwy cyhoeddus ar gyfer pob tîm yn uchafswm o £20,000 fel arfer (ac eithrio costau staff). Yn 2006/07 roedd eu cyllidebau cyfunol yn £53,400. Hefyd, mae'r awdurdodau unedol cyfansoddol yn cyfrannu £23,600 fel rhan o'r cytundebau dirprwyo hawliau tramwy a drafodir yn Nhabl 13.

Tabl 12 Cyllidebau Mynediad a Hawliau Tramwy

Cyllideb ¹	2005/06	2006/07
Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus	£10,000	£10,000
Swyddog Mynediad	£9,000	£9,000
Tîm y Gorllewin	£32,250 ²	£15,000
Tîm y Canolbarth	£20,400	£20,400
Tîm y Dwyrain	£12,000	£18,000
Cyfanswm	£83,650.00	£72,400.00

¹ ac eithrio cyflogau

² defnyddiwyd incwm sy'n deillio o waith arall a wneir gan y tîm i wella eu cyllideb mynediad

Tabl 13 Cyfraniadau Awdurdodau Unedol

Awdurdod Unedol	Cyfraniadau Cytundeb Dirprwyo
Cyngor Sir Powys ¹	£10,000
Cyngor Sir Fynwy ¹	£8,000
Cyngor Sir Caerfyrddin	£4,000
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ¹	£1,000
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ¹	£600
Cyfanswm	£23,600.00

¹ gan gynnwys Gorchmynion Diwygio Map Diffiniol

2.6.7 Dangosir y cyllidebau cyflog sy'n gysylltiedig â'r gwaith uchod yn Nhabl 14 ar gyfer 2005/06 ac yn Nhabl 15 ar gyfer 2006/07.

Tabl 14 Cyfanswm Cyllidebau Cyflog 2005/06

Tîm	Cyllideb Cyflogau
Tîm Hawliau Tramwy	£59750
Tîm Mynediad	£57760
Tîm y Gorllewin	£28077
Tîm y Canolbarth	£35019
Tîm y Dwyrain	£61596
Tîm Ystâd	£40552
Tîm Cyfreithiol ¹	£6508
Cyfanswm	£289262

¹ Gwaith sy'n gysylltiedig â'r Map Diffiniol yn bennaf

Tabl 15 Cyfanswm Cyllidebau Cyflog 2006/07

Tîm	Cyllideb Cyflogau
Tîm Hawliau Tramwy	£61600
Tîm Mynediad	£59630
Tîm y Gorllewin	£28749
Tîm y Canolbarth	£36588
Tîm y Dwyrain	£63972
Tîm Ystâd	£42500
Tîm Cyfreithiol ¹	£6700
Cyfanswm	£299739

¹ Gwaith sy'n gysylltiedig â'r Map Diffiniol yn bennaf

2.6.8 Nid yw'r gwariant cyfredol yn ddigon i gadw'r rhwydwaith hawliau tramwy cyfredol mewn cyflwr derbyniol⁵⁵. Bydd angen buddsoddiad enfawr i wneud y newidiadau a gynigir yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy hwn, er enghraifft, ar gyfer gwaith cyfalaf a newidiadau i'r Map Diffiniol. Ar ôl

⁵⁵ Gweler 2.3.4

hynny, bydd y newidiadau yn gofyn am waith cynnal a chadw llawer mwy na'r lefelau staffio ac adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd. Er ei bod hi'n ddyletswydd statudol i gynhyrchu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy hwn, nid yw'n ddyletswydd rhoi'r datganiad gweithredu ar waith. Felly ni fydd yn derbyn cyllid ychwanegol yn awtomatig. Mae'r datganiad gweithredu'n cydnabod bod angen cyllid cenedlaethol ychwanegol a nodi partneriaid a'r angen i gynnig am gyfleoedd cyllid ychwanegol. Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn chwilio am bartneriaid ar lefel genedlaethol, ond hefyd ar lefel gymunedol - cynghorau lleol neu gymuned neu grwpiau gwirfoddol - ar gyfer prosiectau penodol. Rhestrir awgrymiadau presennol ar gyfer ffynonellau cyllid yn 3.1.2 ac Atodiad 3. Byddai'r Awdurdod yn croesawu i unrhyw grwpiau gwirfoddol yn y Parc Cenedlaethol neu unrhyw grwpiau sy'n gysylltiedig gyda, neu'n defnyddio'r Parc Cenedlaethol ac sydd am gynnig awgrymiadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i wneud gwelliannau penodol gysylltu â ni yn y cyfeiriad ar dudalen 1.

Er y gellid defnyddio mwy a mwy o wirfoddolwyr y Parc Cenedlaethol a chydweithredu a derbyn cymorth gan sefydliadau eraill i weithredu'r Cynllun hwn, ni ellir ei ystyried mewn ffigurau amcanol.

2.6.9 Mae ExeGesIS⁵⁶ yn amcangyfrif bod angen buddsoddiad blynyddol o £13.6 miliwn (oddeutu £400 y km) dros y bum mlynedd nesaf i uwchraddio a chynnal y rhwydwaith yng Nghymru gyfan; mae'r ffigur yn cynnwys cyllideb cynnal a chadw blynyddol o £8.37 miliwn.⁵⁷ Maent yn cyfiawnhau'r buddsoddiad hwn drwy ddyfynnu ffigurau Bwrdd Croeso Cymru sy'n amcangyfrif bod gwerth economaidd y rhwydwaith hawliau tramwy yn £548 miliwn i Gymru.⁵⁸ Wrth ddefnyddio ffigurau ExeGesIS⁵⁹, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, gyda bron i 2,000 km o hawliau tramwy, angen dros £1 miliwn i uwchraddio'r rhwydwaith i gyflwr boddhaol a £500,000 y flwyddyn wedi hynny i'w gynnal yn y cyflwr hwnnw.

Rhoddodd ExeGesIS amcangyfrifon manwl hefyd o gostau celfi, a dangosir rhai yn Nhabl 16 a gellir eu defnyddio fel meincnod (er nad ydynt yn ystyried chwyddiant).

ExeGesIS Spatial Data Management Cyf. - ymgynghorwyr a ddefnyddir gan CCGC
ExeGesIS CCGC Adroddiad Arolwg Cyflwr 10.3

⁵⁸ Ibid.

⁵⁹ Yn seiliedig ar gostau 2003

Tabl 16 Costau Celfi Safonol ⁶⁰ (yn cynnwys Deunyddiau a Llafur)

Math	Oes (blynyddoedd)	Atgyweirio	Adnewyddu
Mynegbyst	12	£40	£80
Camfeydd	12	£90	£150
Gatiau Mochyn	10	£150	£300
Clwydi	10	£87	£175
Pontydd (llai na 2.5m)	10	£200	£800
Pontydd (2-5m)	12	£500	£2,000
Pontydd (mwy na 5m)	15	£1,250	£5,000

Defnyddiwyd y rhain, ynghyd â chostau cyfredol y Parc Cenedlaethol a ddangosir yn Nhabl 17, i ddatblygu'r Datganiad Gweithredu. Mae'r costau ar gyfer digwyddiadau cyfreithiol yn amrywio ond amcangyfrifir bod pob gwriad yn costio £1,500 ar gyfartaledd, gan godi i rhwng £5,000 a £10,000 os yw'r Gorchymyn yn destun ymchwiliad cyhoeddus (costau'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn unig - nid yw'n cynnwys costau'r Arolygiaeth Gynllunio a chyfranogwyr eraill).

Mae'r ffigurau yn Nhabl 17 isod yn ymwneud â gosod celfi newydd sy'n ofynnol i ddod â'r rhwydwaith cyfredol i safon foddhaol yn unig; bydd gwelliannau i'r rhwydwaith yn gofyn am gelfi ychwanegol, gwaith cynnal a chadw yn y dyfodol ac ymrwymiad ariannol i ddarparu adnoddau i adnewyddu celfi yn unol â'r oes yn Nhabl 16.

⁶⁰ Ibid. ffigur 8.2a costau Celfi Safonol, adnewyddu/amnewid bob 5/10/20 mlynedd

Tabl 17 Costau Cyfredol Celfi Newydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (Ebrill 2007, yr Holl Ffigurau wedi'i Talgrynnu)⁶¹

Math	Llafur (gan gynnwys argostau) ¹	Holl ddeunyddiau	Cyfanswm costau uned	Amcangyfrif o'r niferoedd sydd eu hangen ²	Cyfanswm costau
Clirio llystyfiant	40c y metr	Amherthnasol	40c y metr	23,750m	£9,500
Nodwyr llwybr ³	£25	£10	£35	678	£23,730
Mynegbyst	£25	£50 (yn cynnwys cyfeirio)	£75	1,600 ⁴	£120,000
Camfeydd	£75	£55	£130	350	£45,500
Grisiau camfeydd			£30	1,330	£39,900
Camfeydd cŵn ⁵	£95	£25	£120	150	£18,000
Gatiau mochyn (math V)	£145	£50	£195	gweler ar y dde	gweler isod
Gatiau mochyn (math D)	£175	£62	£237	gweler ar y dde	£31,620 ⁶
Gatiau mochyn (math D mynediad i'r anabl)	£200	£75	£275	gweler ar y dde	gweler uchod
Clwydi, holl ddefnyddwyr	£120	£60 (cyfartaledd yn unig, dibynnu ar led)	£180	100	£18,000
Clwydi ceffyl	£145	£50	£195	250	£48,750
Pontydd bach	gweler ar y dde	gweler ar y dde	cyfartaledd, £6,000	6 y flwyddyn am y 5 mlynedd nesaf	£180,000.
Pontydd mawr	gweler ar y dde	gweler ar y dde	£60,000	4	£240,000
					£765,700

⁶¹ Nid yw hyn yn ystyried y costau o gynnal Stofan Ffrwdgrech, e.e. costau trafndiaeth, dillad, gweinyddu ar gyfer rheoli gwaith a stoc

¹ e.e. trafniadaeth

² Yn seiliedig ar arolwg o gyflwr hyd yma

³ Pyst a disgiau

⁴ Mae'r ffigur hwn yn cynnwys y mynegbyst sydd eu hangen ar gyfer Cilffyrdd Cyfyngedig

⁵ O gwmpas cymunedau'n bennaf

⁶ Dyma'r cyfanswm ar gyfer pob math o gatiâu mochyn, felly defnyddiwyd y math a'r gost gyfartalog

Nid yw'r tabl uchod yn ystyried y gwaith atgyweirio sydd ei angen i gelfi cyfredol. Amcangyfrifir bod angen cyfanswm o tua £120,000 i adfer y celfi cyfredol i safon foddhaol. Felly mae angen tua £892,000 o adnoddau i ddod â'r rhwydwaith cyfredol i fyny i safon foddhaol.

2.6.10 Yn ogystal â gwaith statudol ar hawliau tramwy cyhoeddus mae gwaith wedi'i wneud hefyd i ddatrys y broblem erydu ar lwybrau ucheldir penodol. Mae Strategaeth Erydu Ucheldir Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (sy'n cael ei drafftio ar hyn o bryd) yn ceisio sefydlu graddau erydu ar lwybrau ucheldir yn y Parc Cenedlaethol (nid ydynt i gyd yn hawliau tramwy cyhoeddus), er mwyn amcangyfrif costau atgyweirio difrod cyfredol a gwneud gwaith i atal problemau yn y dyfodol. Mae'r strategaeth ddrafft yn dangos maint y dasg sy'n wynebu'r Parc Cenedlaethol ac eraill a'r adnoddau enfawr sydd eu hangen.

Tabl 18 Llywybrau Ucheldir a Arolygwyd, 2006

Blaenoriaeth	Hyd (m)	% o hyd y llwybr a arolygwyd	Cost (£)	Cost/metr (£)
<i>1-mwyaf anffoddhaol</i>	24,562	15.86	1,587,042	65
<i>2</i>	21,522	13.90	684,102	32
<i>3</i>	19,799	12.79	325,994	16
<i>4</i>	29,185	18.85	199,082	7
<i>5-lleiaf anffoddhaol</i>	59,784	38.61	204,289	3
Cyfanswm	154,851	Amherthnasol	3,000,508	19¹

¹ y gost ar gyfartaledd

Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad: "Er bod y gost o atgyweirio llwybrau sydd mewn cyflwr gwael ar hyn o bryd yn sylweddol, wrth gymharu â'r data a gasglwyd ym 1996/97 ymddengys y bydd peidio â gweithredu'n creu problem waeth a rhagor o gostau yn y dyfodol.'

Rhoddyd amserlen realistig o 5 mlynedd i gwblhau'r gwaith a nodwyd yn yr arolwg, a gallai hyn ddarparu manteision economaidd a chymdeithasol sylweddol ar gyfer yr ardal pe bai'r gwaith, er enghraifft, yn cael ei wneud gan gontractwyr lleol neu weithwyr yn y sector cyhoeddus.

Er mwyn manteisio i'r eithaf ar neilltuo adnoddau ar gyfer y mater hwn, dadleuir bod angen dull strategol sy'n ystyried gofynion sgiliau a hyfforddiant, datblygu rhaglenni gwaith tymor byr, canolig a hirdymor a chysylltiadau â meysydd gwaith eraill y mae Awdurdod y Parc

Cenedlaethol yn cyfrannu atynt.

2.6.11 Yn ystod y gwaith o baratoi'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, ailstrwythurwyd y Timau Ardal ac Ystâd. Lluniwyd yr ailstrwythuro'n rhannol gan broses y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Nod y gwaith ailstrwythuro oedd darparu mwy o swyddi wardeniaid gan gynyddu'r gallu ar gyfer gwaith y gellid ei wneud ar y rhwydwaith hawliau tramwy a meysydd gwaith eraill y mae'r Tîm yn gyfrifol amdanynt. Mae'r gwaith ailstrwythuro wedi'i gyflawni drwy ddefnyddio arbedion ar lefel rheoli i gyflogi staff rheng flaen ychwanegol. Dangosir y strwythur newydd yn Atodiad 5.

2.6.12 O ystyried maint y ffigurau a ddyfynnir yn 2.6.9 a'r ffaith na fydd yr adnoddau sydd eu hangen i wella a chynnal hygyrchedd pob hawl dramwy yn y Parc Cenedlaethol byth o fewn cyrraedd, ynghyd â'r ffaith, o safbwynt rheoli, nad oes diben mewn ceisio cynnal pob hawl dramwy i'r un safon pa le bynnag eu lleoliad, eu defnydd a'u cyflwr, mae angen i'r Awdurdod gynllunio a chyflawni gwaith ar y rhwydwaith mewn ffordd fwy strwythuredig. Gan hynny, awgrymir y dylid rhannu'r rhwydwaith i hierarchaeth a bennir gan flaenoriaethau.

Cynigir mai'r ffordd orau ymlaen yw nodi'r hawliau tramwy hynny sydd â'r gwerth mwyaf, neu werth posibl, i gymunedau ac ymwelwyr. Gall y gwerth hwn fod o ran cyfraniad i'r economi lleol drwy dwristiaeth, drwy fanteision iechyd neu drwy ddefnydd a mwynhad lleol. Drwy flaenoriaethu'r hawliau tramwy hyn gan weithredu drwy ddull hierarchaidd, bydd yr Awdurdod yn sicrhau'r gwerth gorau ar gyfer ei fuddsoddiad.

Nid yw hyn yn golygu y gellir anwybyddu'r hawliau tramwy sy'n cael blaenoriaeth isel; ni all yr Awdurdod osgoi ei ddyletswydd ddirprwyedig fel awdurdod priffyrdd i arddel a diogelu hawliau'r cyhoedd i ddefnyddio a mwynhau hawliau tramwy a chynnal yr hawliau tramwy y mae'n gyfrifol amdanynt. Ond bydd hierarchaeth yn rhoi fframwaith blaenoriaeth ar gyfer targedu buddsoddiad yn ddoeth.

Wrth gydnabod cymaint y mae'r diwydiant twristiaeth yn dibynnu ar fynediad i gefn gwlad, ac y bydd y lefel o gynnal a chadw hawliau tramwy yn amrywio, mae sefydlu trefn hierarchi yn y rhwydwaith yn gam nesaf hanfodol.

Bydd gwaith ar ddatblygu hierarchaeth yn dilyn cwblhau'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy hwn a bydd yn ymwneud â thrafodaethau manwl ac ymgynghori â rhanddeiliaid.

2.7 ASESU ANGHENION DEFNYDDWYR HEDDIW A FORY

2.7.1 Er mwyn asesu pam mae defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr am ddefnyddio hawliau tramwy cyhoeddus, a beth fyddai'n eu hannog i ddefnyddio mwy ar y rhwydwaith, cyflawnodd Awdurdod Parc

Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ymgynghoriadau ac arolygon eang o ddefnyddwyr mynediad a grwpiau sy'n cynrychioli darpar ddefnyddwyr.

Roedd yr ymgynghoreion yn cynnwys:

- Fforymau Mynediad Lleol
- Aelodau Fforwm Ymgynghorol Ardal
- Aelodau Awdurdod Parc Cenedlaethol
- Grwpiau defnyddwyr
- Aelodau unigol o'r cyhoedd
- Ymgynghoriad cyhoeddus ar ddau gyfnod o'r broses Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
- Llythyrau a holiaduron wedi'u targedu at grwpiau defnyddwyr penodol
- Arddangosfeydd ac arddangosiadau cymunedol
- Holiaduron mewn canolfannau ymwelwyr, meysydd parcio a Sioe Frenhinol Cymru

2.7.2 Defnyddiwyd holiaduron a oedd wedi'u cynllunio i gasglu amrywiaeth eang o wybodaeth am y pynciau canlynol:

- gwybodaeth am hawliau tramwy yn y Parc Cenedlaethol
- defnyddwyr a'u defnydd o'r rhwydwaith
- y problemau a wynebwyd
- pa mor addas yw'r rhwydwaith cyfredol
- awgrymiadau ar gyfer gwelliannau
- deall/gwybodaeth am y Mapiau Diffiniol

Lluniwyd map, y cyfeirir ato fel Map Mynediad Cyflawn, ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol yn dangos y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus a:

Tiroedd comin gwledig
 Tiroedd comin trefol
 Llwybrau a hyrwyddir
 Tir Dŵr Cymru
 Tir gyda Mynediad Coedwig
 Llwybrau goddefol (o gynllun Tir Gofal yn bennaf)
 Tir Coed Cadw
 Tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
 Tir y Comisiwn Coedwigaeth
 Gwarchodfeydd Natur
 Cytundebau tir Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain
 Safleoedd cefn gwlad sy'n eiddo i'r awdurdod lleol
 Tir sy'n eiddo i Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
 Tir gyda chytundebau Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
 (mae llawer o'r tir yn cyfateb i Dir Mynediad bellach)

Mae hyn wedi'i ddefnyddio at ddibenion ymgynghori, er enghraifft, ym mhob un o Fforymau Mynediad Lleol Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Fforymau Ymgynghorol Ardal, cyfarfodydd cyhoeddus amrywiol ac arddangosfeydd mewn llyfrgelloedd.

2.7.3 Gyda'i gilydd, roedd 90% o'r bobl a arolygwyd yn gwybod beth oedd hawliau tramwy cyhoeddus ac roedd 78% yn gwybod am ac yn defnyddio hawliau tramwy cyhoeddus yn y Parc Cenedlaethol. Roedd gwybodaeth pobl yn amrywio yn dibynnu ar leoliad; roedd yr holl ymatebwyr yn y Ganolfan Fynyddig ac yng Ngharreg Cennen yn gwybod beth oedd hawliau tramwy cyhoeddus, tra bod 78% o drigolion Merthyr Tudful yn ymwybodol o hawliau tramwy cyhoeddus a dywedodd 65% eu bod yn defnyddio hawliau tramwy cyhoeddus yn y Parc Cyhoeddus. Roedd dros 97% o'r bobl a arolygwyd yn defnyddio rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus y Parc Cenedlaethol.

2.7.4 Mae'r materion a godwyd yn yr ymgynghoriadau ac arolygon defnyddwyr hyn wedi'u defnyddio i asesu:

1. *A ystyrir bod y ddarpariaeth ar gyfer un dosbarth neu fwy o ddefnyddwyr yn annigonol neu'n debygol o fod yn annigonol yn y dyfodol a nodi graddau'r diffygion hynny*
2. *A oedd y data'n awgrymu bod diffygion eraill yn y ddarpariaeth* ⁶²

Crybwyllwyd amrywiaeth cymharol fach o faterion ac roedd llawer o'r arsylwadau, problemau a'r diffygion a nodwyd yn gyffredin ymysg yr holl ddefnyddwyr fel y dangosir yn Nhabl 19 isod.

Tabl 19 Materion a Godwyd mewn Asesiadau Defnyddwyr

Materion	Defnyddwyr ¹
Dylid cynnal a chadw a rhoi cyhoeddusrwydd da i'r holl hawliau tramwy cyhoeddus	pawb
Dylai'r Map Diffiniol fod yn gywir a chyfoes	pawb
Dylai map sy'n dangos y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus cyfredol fod ar gael yn hawdd i'r cyhoedd	pawb
Dylid dargyfeirio hawliau tramwy cyhoeddus sy'n mynd drwy erddi ac sy'n agos i anheddau pryd bynnag bosibl	C
Dylid datrys unrhyw achos o ddsbarthu hawliau tramwy cyhoeddus yn anghyson ar draws ffiniau gweinyddol	pawb
Nid oes digon o hawliau tramwy cyhoeddus ar gyfer pobl sydd â phroblemau symud, nam ar y golwg neu ddefnyddwyr cadair olwyn; nodwyd y byddai gwelliannau hefyd o fudd i ddefnyddwyr cadeiriau gwrthio a phramiau, beicwyr, marchogion a defnyddwyr cerbydau oddi-ar-y-ffordd	B, C B, M, C DM
Nid oes digon o hawliau tramwy cyhoeddus dros Dir Mynediad a allai arwain at gau'r ardal	C, M
Mae rhannau o'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus yn dameidiog	pawb
Mae gormod o lwybrau'n arwain i unlle	pawb
Nid oes digon o gylchffyrdd ar gyfer marchogion a beicwyr	M, B
Nid oes digon o wybodaeth (mapiau a thafleenni) am hawliau tramwy cyhoeddus	pawb
Nid oes digon o wybodaeth ar fynegbyst	C

⁶² Cyfarwyddyd 3.3.1

Mae pobl sydd ag unrhyw fath o anabledd angen gwybodaeth sy'n ymwneud â hyd llawn hawl dramwy gyhoeddus	A
Nid oes digon o wybodaeth am lwybrau cyfreithlon ar gyfer cerbydau oddi-ar-y-ffordd	DM, C
Mae angen dull cyson o nodi llwybrau ar fryniau	C
Gellid cyhoeddi problemau ar hawliau tramwy cyhoeddus ar y rhyngwyd	pawb
Mae rhai hawliau tramwy cyhoeddus wedi'u rhwystro	pawb
Mae erydiad ar lwybrau troed yn broblem ddifrifol mewn rhai ardaloedd	C, M
Mae gwrthdaro rhwng gwahanol ddefnyddwyr, er enghraifft, defnyddwyr moduron a defnyddwyr eraill, cerddwyr a marchogion ²	pawb
Mae hawliau tramwy cyhoeddus yn beryglus wrth groesi ffordd	C, M
Mae hawliau tramwy cyhoeddus yn beryglus os ydynt wrth ochr priffordd	C, M
Mae hawliau tramwy cyhoeddus yn beryglus os ydynt ar ffordd	C, M
Mae angen datblygu mwy o hawliau tramwy cyhoeddus ar gyfer pob defnyddiwr o gwmpas pentrefi	pawb
Cysylltu hawliau tramwy cyhoeddus â rhwydwaith trafniadaeth gyhoeddus	C
Dylid datblygu teithiau cerdded llinol ar lefelau amrywiol a rhoi cyhoedduswydd iddynt ar y cyd â thrafnidiaeth gyhoeddus ddibynadwy sy'n rhedeg ar benwythnosau	C, B
Rhagor o wybodaeth am gyfleusterau parcio ceir yn y Parc Cenedlaethol a meysydd parcio gyda gwell cyfleusterau	pawb

¹C - cerddwyr M - marchogion B - beicwyr A - defnyddwyr anabl DM - defnyddwyr moduron

²Roedd Strategaeth Cerdded a Seiclo 2003⁶³ yn nodi bod ymchwil wedi dangos nad oedd llawer o wrthdaro rhwng defnyddwyr mewn gwirionedd

2.7.5 Hefyd, mae gwahanol ddefnyddwyr wedi nodi problemau penodol:

Cerddwyr

Mae'r holl faterion a nodwyd gan gerddwyr wedi'u nodi uchod.

Marchogion

Roedd 90% o'r marchogion a ymatebodd yn ystyried bod y cyfleusterau ar gyfer cerddwyr yn dda iawn neu'n dda, ond dim ond 2% a oedd yn credu bod y ddarpariaeth llwybrau ceffyl yn dda iawn, gyda 50% yn ystyried bod y ddarpariaeth yn wael neu'n wael iawn. Mae asesiadau wedi datgelu bod angen mwy o lwybrau ceffyl; yn benodol mwy o gylchffyrdd a mwy o gysylltiadau o fewn y rhwydwaith llwybrau ceffyl i sicrhau llwybrau hirach ar gyfer marchogion. Roedd y data hefyd yn nodi bod angen mwy o fynediad i lwybrau ceffyl o drefi o fewn a thu allan i'r Parc Cenedlaethol, yn enwedig cymoedd y De. Awgrymwyd y gallai defnyddio ymylon ffordd ddiwallu rhai o'r anghenion hyn.

⁶³ Strategaeth Cerdded a Seiclo 2003, 3.2.7

Mae peth cynnydd eisoes wedi'i wneud ar gyfer marchogion. Datblygwyd Taith y Tair Afon, er enghraifft, sef llwybr a hyrwyddir o Swydd Gaerwrangon, drwy Swydd Henffordd a drwy'r Parc Cenedlaethol, gan Gymdeithas Ceffylau Prydain ac fe'i hagogwyd yn 2005. Enillodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wobwr am fynediad i farchogion yn 2005 a oedd yn gysylltiedig i raddau â'r prosiect hwn. Hefyd, mae datblygu cysylltiadau i'r Parc Cenedlaethol o gymoedd y De yn cael ei archwilio ar hyn o bryd. Mae'r daflen 'Black Mountain Riding Loops' a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan yr Awdurdod yn darparu manylion pum llwybr a fydd yn apelio i farchogion o bob gallu. Mae'n dod â gwybodaeth am lwybrau, gwely a brechwast ceffylau, tafarndai sy'n derbyn ceffylau, safleoedd picnic, canolfannau merlota, mannau gwerthfawrogi golygfeydd a meysydd parcio wagenni ceffylau at ei gilydd.

Fodd bynnag, mae mentrau fel hyn wedi dangos ei bod hi'n anodd cael mynediad i'r rhwydwaith llwybrau ceffyl a chilffyrdd cyfyngedig ar gefn ceffyl. Er enghraifft, mae'r holl ganolfannau merlota bron iawn yn y Parc Cenedlaethol wedi'u gwahanu o'r rhwydwaith marchogaeth sy'n golygu bod yn rhaid dibynnu'n drwm ar y rhwydwaith ffyrdd tarmac. Tra bod gwelliannau wedi'u gwneud i'r rhwydwaith llwybrau ceffyl yn ystod y blynyddoedd diwethaf (e.e. gwella clwydi, gosod clicedau addas i geffyl ac ati) mae'r gwelliannau wedi'u cyfyngu'n bennaf i gelfi a gwaith arwyneb ar y rhwydwaith cyfredol. Nid oes ymdrechion wedi'u gwneud i ddatblygu ac ehangu'r rhwydwaith llwybrau ceffyl er mwyn gostwng y ddibyniaeth ar ffyrdd tarmac.

Beicwyr

Mae amrywiaeth o weithgareddau beicio yn y Parc Cenedlaethol, fel beicio mynydd, teithio ar ffyrdd, teithiau bob pwrpas, plant yn beicio o gwmpas eu cartrefi ac ati. Gall beicwyr ddefnyddio llwybrau ceffyl ac mae'r anghenion a fynegwyd ganddynt (a nodwyd yn yr arolwg) bron union yr un fath â rhai marchogion, sy'n pwysleisio bod angen rhagor o lwybrau ceffyl a mwy o lwybrau beicio dynodedig gydag arwyneb mwy addas. Mae rhai o'r materion a godwyd wedi'u cynnwys yn Strategaeth Seiclo'r Awdurdod sydd â chwe nod craidd ar gyfer datblygu beicio ar gyfer teithiau hamdden a phob pwrpas yn y Parc Cenedlaethol. Y nodau sy'n fwyaf perthnasol i'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yw CA1: manteisio i'r eithaf ar rôl beicio fel gweithgarwch hamdden, twristiaeth a thrafnidiaeth i drigolion ac ymwelwyr i ac o fewn y Parc; CA2: datblygu twristiaeth feicio fel rhan sylweddol o economi cyffredinol y Parc Cenedlaethol a'i gymunedau; CA3: gwella'r seilwaith feicio yn y Parc i ddiwallu anghenion y marchnadoedd ymwelwyr craidd posibl a hyrwyddo datblygiad economaidd drwy dwristiaeth gynaliadwy; CA4: gwella'r seilwaith ategol ar gyfer twristiaeth feicio a, CA5: rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i feicio ar gyfer teithiau o bob math.

Defnyddwyr anabl

Mae consensws gan y mwyafrif o ddefnyddwyr nad oes digon o hawliau tramwy cyhoeddus i ddiwallu anghenion defnyddwyr cadair olwyn, pobl â phroblemau symudedd a phobl â nam ar y golwg. Dim ond 2% o ymatebwyr oedd yn credu bod y ddarpariaeth ar gyfer defnyddwyr anabl yn dda iawn, gyda 20% yn eu disgrifio yn dda a 75% yn wael. Pwysleisiodd yr holl ddefnyddwyr anabl bod angen dymchwel y rhwystrau sy'n atal mynediad i hawliau tramwy cyhoeddus ac ystyried y llwybr cyfan wrth wneud gwelliannau. Bydd gweithredu gwelliannau o'r fath yn gwella'r ddarpariaeth i'r holl ddefnyddwyr, gan gynnwys y pobl â phlant a chadeiriau gwthio.

Mae anghenion mwy penodol a nodwyd yn cynnwys:

- Rhagor o wybodaeth mewn amrywiaeth o fformatau a gwell disgrifiadau llwybr
- Nodwyr cyffwrdd ar gyfer llwybrau cylchol llai
- Llwybrau wedi'u diffinio'n glir
- Mwy o feysydd parcio
- Mwy o feysydd parcio gyda gwell cyfleusterau ar gyfer pobl anabl

Mae'r Awdurdod wedi cynhyrchu *'Places to Visit with Disabled and Easier Access Guide'* sy'n rhestru dros 40 o safleoedd, llwybrau ac atyniadau yn y Parc Cenedlaethol sydd â mynediad hawdd ac i bobl anabl. Mae llawer o'r safleoedd a restrir wedi'u cynllunio'n arbennig neu eu gwella i fodloni gofynion mynediad i bobl anabl. Mae'r canllawiau hyn yn cael eu diwygio ar hyn o bryd.

Mae'r Awdurdod wedi cynhyrchu Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl a Chynllun Gweithredu⁶⁴ yn ddiweddar. Yn sgil yr ymgynghori ar y cynllun cododd y camau gweithredu canlynol sydd wedi'u cynnwys yng nghynllun gweithredu'r Cynllun:

- Gwella'r arwyddion ar yr holl safleoedd a llwybrau mynediad hawdd
- Gwella arwyddion ar gyfer pobl â nam ar y golwg ar safleoedd a llwybrau mynediad hawdd
- Paratoi asesiadau effaith cydraddoldeb i bobl anabl a datganiadau mynediad ar gyfer yr holl deithiau cerdded a llwybrau a gynhelir gan yr Awdurdod
- Gwefan yr Awdurdod i ragori ar y safonau gofynnol ar gyfer hygyrchedd i bobl â nam ar y golwg

Defnyddwyr moduron

Nododd defnyddwyr moduron fod angen mwy o lwybrau cyfreithlon ond bod yr angen am wybodaeth sy'n cael cyhoedduswydd eang am lwybrau cyfreithlon cyfredol ar gyfer cerbydau oddi-ar-y-ffordd yn y Parc Cenedlaethol yr un mor bwysig. Roeddent yn cydnabod y gwrthdaro rhwng defnyddwyr moduron a defnyddwyr eraill ond yn honni mai

⁶⁴ Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl a Chynllun Gweithredu 2006 - 2009

defnyddwyr anghyfreithlon oedd yn achosi'r gwrthdaro hwn a nhw hefyd oedd yn gyfrifol am erydu rhai o'r llwybrau a thraciau.

Ffermwyr a phorwyr

Roedd llawer o ffermwyr a phorwyr yn cydnabod pwysigrwydd hawliau tramwy cyhoeddus i fusnesau arallgyfeirio amrywiol ond yn pwysleisio na ddylai gwelliannau fod ar draul harddwch naturiol a chymeriad y Parc Cenedlaethol. Pwysleisiwyd bod angen ymgynghori'n gynnar ar welliannau arfaethedig.

Busnesau

Roedd y rhain yn cynnwys canolfannau merlota, siopau beiciau, rhai meysydd carafannau, tai llety a gwestai. Roeddent i gyd yn pwysleisio pwysigrwydd hawliau tramwy cyhoeddus i'w busnesau gyda rhai, er enghraifft, canolfannau merlota, yn rhoi sylwadau mwy penodol ac yn cydnabod yr angen am lwybrau ceffyl mwy hygyrch.

Pobl nad ydynt yn ddefnyddwyr a galw anhysbys

Mae rhai ffactorau a nodwyd sy'n cyfrannu at beidio â defnyddio hawliau tramwy cyhoeddus yn y Parc Cenedlaethol yn cynnwys diffyg llwybrau cylchol ar gyfer marchogion a beicwyr; diffyg gwybodaeth ar fynegbyst ac ar ffurf mapiau a thafleini; hawliau tramwy'n cael eu rhwystro a hawliau tramwy peryglus wrth ymyl ffyrdd.

Yn Arolwg Ymwelwyr y De Ddwyrain⁶⁵ gofynnwyd i ymatebwyr pa fathau o lwybrau neu gyfleusterau fyddai'n achosi iddynt fod yn fwy tebygol o gyflawni'r gweithgareddau hynny yn y Parc Cenedlaethol:

- Cerdded

Roedd 38.1% o ymatebwyr yn ystyried y byddai teithiau cerdded byr â thema yn golygu y byddent yn llawer mwy tebygol o gerdded yn y Parc Cenedlaethol ac roedd 45.1% yn credu y byddai gan deithiau cerdded hawdd eu dilyn yr un effaith.

- Beicio

Roedd 41.2% o ymatebwyr yn ystyried y byddai llwybrau oddi-ar-y-ffordd hawdd ar gyfer y teulu yn golygu y byddent yn llawer mwy tebygol o feicio yn y Parc Cenedlaethol ac roedd 54% yn credu y byddai gan deithiau diogel ar ffyrdd gwledig yr un effaith.

- Marchogaeth

⁶⁵ Research and Marketing Cyf. Chwefror 2006

Roedd 57% o ymatebwyr yn ystyried y byddai llwybrau marchogaeth o ansawdd uchel yn golygu y byddent yn llawer mwy tebygol o farchogaeth yn y Parc Cenedlaethol.

Rydym eisoes yn mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn. Er enghraifft, cyhoeddwyd llyfryn o Deithiau Cerdded Bywyd Gwyllt byr gan yr Awdurdod yn 2006 a chyhoeddwyd taflen o deithiau marchogaeth yn y Mynyddoedd Duon yn ddiweddar. Mae cyhoeddiad sy'n cynnwys llwybrau beicio teulu ar y gweill ar hyn o bryd.

2.7.6 Er yr ymgynghori eang, roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn cytuno ar y mwyafrif o faterion. Fodd bynnag, mynegwyd y safbwyntiau gwahanol canlynol ar ddau fater penodol:

- Ffyrdd Coll
